

8042-20

# City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) - Gwaith Toi - Llechi a Theils

C00/4327/1

## Llawlyfr Cymwysterau

Fersiwn 1.1 Ionawr 2022



## Tabl Cynnwys

### Cynnwys

<b>Diben y cymhwyster .....</b>	<b>3</b>
<b>Nodau ac amcanion y cymhwyster .....</b>	<b>5</b>
<b>Strwythur y cymhwyster .....</b>	<b>6</b>
<b>Darparu'r cymhwyster .....</b>	<b>15</b>
<b>Crynodeb o'r asesiad.....</b>	<b>18</b>
<b>Manylebau Aseu.....</b>	<b>21</b>
<b>Allwedd cynnwys .....</b>	<b>23</b>
<b>Cynnwys yr Unedau.....</b>	<b>25</b>
Uned 301: Deall Arferion Adeiladu yng Nghymru	26
Uned 302: Gweithio yn y Sector Adeiladu yng Nghymru	34
Uned 303: Cynllunio a Gwerthuso Gwaith yn y Sector Adeiladu yng Nghymru	40
Uned 304: Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle	44
Uned 305: Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol	49
Uned 306: Symud, trin neu storio adnoddau	53
Uned 235: Gwybodaeth graidd am doi	61
Uned 236: Gosod is-haen, estyll strïbed a chydannau toi	66
Uned 237: Gosod teils to lapiad sengl i fesur amrywiadwy	71
Uned 238: Gosod gorchuddion to teils plaen	75
Uned 239: Gosod seliau hindreuliad sydd wedi cael eu ffurfio ymlaen llaw ar doeau	79
Uned 240: Gosod llechi to naturiol maint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to	83
Uned 241: Tynnu ac adfer gorchuddion to	87

### Gwybodaeth am y Fersiwn

Fersiwn a dyddiad cyhoeddi	Newidiadau
f1 Mehefin 2021	Y ddogfen wreiddiol
f1.1 Ionawr 2022	Rhaid i ddysgwyr gyflawni'r holl unedau a restrir isod (t6) Deunyddiau cefnogi – diweddarwyd cyfeiriad y wefan (t15)

## Diben y cymhwyster

### Disgrifiad

**I bwy mae'r cymhwyster?** Datblygwyd y cymhwyster City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils er mwyn galluogi'r rheini sy'n dysgu yn y gwaith i ddangos a gwella'u gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth alwedigaethol mewn crefft adeiladu o'u dewis.

Fe'i hanelir at ddysgwyr sydd un ai wedi ennill y cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2), neu a fydd yn cwblhau'r dysgu a'r asesiadau yn y cymhwyster Craidd mewn Adeiladu a Pheirianneg Gwasanaethau Adeiladu (Lefel 2) yn ystod eu prentisiaeth. Bydd y cymhwyster hwn yn galluogi dysgwyr i gael eu profi i fod yn gymwys a chael cyflogaeth yn y grefft o'u dewis yn ogystal â mynd ymlaen i astudio cyrsiau adeiladu Lefel 3 eraill sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Mae'n addas ar gyfer:

- dysgwyr 16+ oed sy'n gweithio yn y sector adeiladu ar hyn o bryd
- dysgwyr sydd un ai wedi ennill y cymhwyster Sylfaen mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, neu a fydd yn cwblhau'r dysgu a'r asesiadau Sylfaen yn ystod eu prentisiaeth.
- dysgwyr sydd wedi cwblhau'r cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) - Gwaith Toi - Llechi a Theils

**Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?**

Mae dysgwyr yn dewis crefft yn y sector adeiladu a byddant yn datblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r grefft honno, fel y'i cynhwysir yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol.

Bydd y cymhwyster yn galluogi dysgwyr i gynllunio a chyflawni prosiectau yn y grefft o'u dewis yn y maes adeiladu, yn unol â safonau a gydnabyddir yn genedlaethol, cyn adolygu a gwerthuso ansawdd allbynnau'r prosiect.

Gellir defnyddio'r cymhwyster ledled y DU a'i nod yw datblygu gallu dysgwyr i fodloni gofynion y sector adeiladu yng Nghymru, gan gynnwys gweithio gyda'r stoc adeiladu draddodiadol, newydd a chyn-1919, a deall technolegau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

**Beth yw'r cyfleoedd ar gyfer dilyniant?**

Ar ôl ei gwblhau, bydd y cymhwyster yn rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i ddysgwyr allu gweithio yn y grefft o'u dewis ledled y DU.

Gyda phwy ydyn ni wedi datblygu'r cymhwyster?

Mae'r cynnwys wedi cael ei ddatblygu gan y Consortiwm<sup>1</sup> ar y cyd â rhanddeiliaid, tiwtoriaid, canolfannau a chyflogwyr ar draws y sector.

---

<sup>1</sup> Mae'r consortiwm yn cynnwys Sefydliad City & Guilds Llundain ac EAL a fu'n gweithio ar y cyd i ddatblygu a darparu'r holl gymwysterau yn y gyfres Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu

## Nodau ac amcanion y cymhwyster

Mae'r Cymhwyster Adeiladu (Lefel 3) yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu:

- gallu i gynllunio prosiectau gwaith yn effeithiol gan ddefnyddio'r sgiliau priodol ar gyfer crefft adeiladu o'u dewis ac mewn amgylchedd gwaith;
- gallu i adolygu a gwerthuso ansawdd eu gwaith gorffenedig yn effeithiol mewn crefft adeiladu o'u dewis ac mewn amgylchedd gwaith;
- gwybodaeth a dealltwriaeth o'r offer, y technegau, y deunyddiau a'r technolegau a ddefnyddir yn y grefft adeiladu o'u dewis a sut maent yn newid, ac wedi newid, dros amser;
- sgiliau cyflogadwyedd a'u gallu i'w defnyddio mewn amgylchedd gwaith;
- dealltwriaeth o gynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol o ran eu perthnasedd i'r amgylchedd adeiledig;
- gwybodaeth a dealltwriaeth alwedigaethol mewn crefft adeiladu o'u dewis;
- perfformiad galwedigaethol mewn crefft adeiladu o'u dewis mewn cyd-destun gwaith.

## Strwythur y cymhwyster

### Rheolau cyfuno

Er mwyn cyflawni **City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils**, rhaid i ddysgwyr gyflawni'r holl unedau a restrir isod.

**Ennill gradd Pasio neu uwch yn y tri dull asesu, cyfanswm o 634 o oriau dysgu dan arweiniad (GLH).**

Rhif yr uned	Teitl yr uned	Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH)
301	Deall Arferion Adeiladu yng Nghymru	40
302	Gweithio yn y Sector Adeiladu yng Nghymru	40
303	Cynllunio a Gwerthuso Gwaith yn y Sector Adeiladu yng Nghymru	35
304	Cydymffurfio ag Iechyd, Diogelwch a Lles Cyffredinol yn y Gweithle	21
305	Cydymffurfio ag Arferion Gwaith Cynhyrchiol	14
306	Symud, Trin neu Storio Adnoddau	30
235	Gwybodaeth graidd am doi	50
236	Gosod is-haen, estyll sribed a chydannau toi	40
237	Gosod teils to lapiad sengl i fesur amrywiadwy	48
238	Gosod gorchuddion to teils plaen	62

239	Gosod seliau hindreuliad sydd wedi cael eu ffurfio ymlaen llaw ar doeau	45
-----	--	----

240	Gosod llechi to naturiol maint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to	83
-----	--	----

241	Tynnu ac adfer gorchuddion to	50
-----	-------------------------------	----

	Pob Math o Aseiad	76
--	-------------------	----

	634
Cyfanswm Oriau Dysgu dan Arweiniad (gan gynnwys unedau craidd/gorfodol ac Aseiad):	

---

## Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH) a'r Cyfanswm Oriau Cymhwys (TQT)

Mae'r Oriau Dysgu Dan Arweiniad (GLH) yn rhoi syniad i ganolfannau o faint o ddysgu ac asesu dan oruchwyliaeth sy'n ofynnol i ddarparu'r uned, a gellir eu defnyddio at ddibenion cynllunio.

Cyfanswm Oriau Cymhwys (TQT) yw cyfanswm yr amser, mewn oriau, y mae disgwyl i ddysgwr ei dreulio er mwyn ennill cymhwyster. Mae'n cynnwys oriau dysgu dan arweiniad (sy'n cael eu rhestru ar wahân) a'r oriau sy'n cael eu treulio'n paratoi, yn astudio ac yn cyflawni rhai gweithgareddau asesu ffurfiannol.

Caiff credyd ei gyfrifo gan ddefnyddio fformiwla sy'n hafal i werth y cyfanswm oriau cymhwys wedi'i rannu â 10.

Mae manylion y cyfanswm oriau cymhwys ar gyfer y cymhwyster hwn wedi'u nodi isod.

Cymhwyster	Cyfanswm Oriau Cymhwys	Credydau
Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils	693	69

## Gofynion ar y ganolfan

Bydd angen cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster ar gyfer y cymhwyster hwn. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau wrth ddesg ac wyneb yn wyneb.

I ennill cymeradwyaeth fel canolfan, mae'n rhaid i'r sefydliad allu bodloni'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo canolfannau. Mae modd gweld manylion y gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn yn y dogfennau canlynol:

- Llawlyfr City & Guilds i Ganolfannau
- Ein Gofynion o ran Sicrhau Ansawdd
- Model Sicrhau Ansawdd

Cynghorir darpar ganolfannau i gael cymeradwyo'r ganolfan a'r cymhwyster, fel bo'n briodol, cyn dechrau darparu'r cymhwyster.

Mae City & Guilds yn anelu at ddod i benderfyniad ynghylch cymeradwyo canolfannau a chymwysterau cyn pen 30 diwrnod gwaith i gyflwyno'r cais cyflawn, ac mae pedwar canlyniad posibl:

- Rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan a'r cymhwyster
- Rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan a'r cymhwyster yn amodol ar ddatblygu cynllun gweithredu
- Peidio â rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan na'r cymhwyster hyd nes y datblygir cynllun gweithredu
- Peidio â rhoi cymeradwyaeth i'r ganolfan na'r cymhwyster.

Ystyrir bod y ganolfan a'r cymwysterau wedi cael eu cymeradwyo pan fydd City & Guilds yn ysgrifennu at y ganolfan yn cadarnhau'r statws, a dim cyn hynny.



Bydd gofyn i ganolfannau wneud cais am gymeradwyaeth ar gyfer y cymhwyster hwn, a bodloni'r gofynion penodol ar ganolfannau sydd wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon, o ran cymhwysedd staff darparu ac asesu. Bydd y gofynion hyn yn cael eu gwirio a'u monitro fel rhan o'r broses o gymeradwyo cymwysterau a'r gwaith parhaus o fonitro'r cymhwyster hwn.

## Cofrestru, cyhoeddi canlyniadau ac ardystio

Ewch i wefan City and Guilds i gael manylion ynghylch y prosesau, yr amserlenni a'r gweithdrefnau ar gyfer cofrestru ac ardystio cymwysterau.

### Sicrhau ansawdd

#### Sicrhau ansawdd mewnol

Mae'r broses sicrhau ansawdd mewnol ar gyfer y cymhwyster hwn yn canolbwyntio ar y canlynol:

- sicrhau ansawdd gweithdrefnau asesu, gan gynnwys safoni arferion asesu ar draws gwahanol aseswyr yn y ganolfan,
- sicrhau bod y ffigurau bras ar gyfer Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH) ar gyfer y prosiect ymarferol yn cael eu bodloni'n gyson, gyda gwahaniaethau sylweddol neu barhaus yn cael eu harchwilio,
- safoni'n fewnol y marciau a roddwyd i ddysgwyr ar gyfer y Prosiect Ymarferol.

Rhaid i bob canolfan a gymeradwyir i ddarparu'r cymhwyster hwn fod â phrosesau sicrhau ansawdd mewnol (SAM) trylwyr ar waith. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol:

- yn darparu cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu
- cynnal dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a pharhau i fodloni'r meini prawf cymeradwyo.

Bydd tystiolaeth SAM yn destun craffu fel rhan o waith sicrhau ansawdd allanol City & Guilds. Bydd disgwyl i ganolfannau gadw tystiolaeth yn unol â gofynion [llawlyfr canolfannau City & Guilds](#) a dylid ei chadw am o leiaf dair blynedd.

#### Sicrhawyr ansawdd mewnol

Rhaid i'r ganolfan roi i City & Guilds fanylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt ymgymryd â Sicrhau Ansawdd Mewnol, fel y gellir eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith hwn. Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i'r Sicrhawyr Ansawdd Mewnol hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Rhaid i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol wneud y canlynol:

- paratoi am, a chymryd rhan yng nghyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds, megis cynefino, Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) / digwyddiadau hyfforddi a safoni, a sicrhau bod unrhyw gynlluniau gweithredu / gwella personol yn cael eu cwblhau, o fewn amserlen wedi'i chytuno ac i'r safonau sy'n ofynnol.
- bod â lefel sylfaenol o brofiad galwedigaethol a thystiolaeth o hynny ar ffurf cymhwyster sy'n ymwneud ag adeiladu neu brawf o brofiad/cymhwysedd yn y sector sydd gyfwerth â lefel y cymhwyster o leiaf, er mwyn eu galluogi i ymgymryd â'u rôl fel Sicrhawr Ansawdd Mewnol. Mae City & Guilds yn sicrhau ansawdd y dystiolaeth hon.
- yn gweithio tuag at (wedi cofrestru cyn cyflawni unrhyw weithgaredd sicrhau ansawdd), neu wedi cyflawni'r unedau canlynol:
  - Deall Egwyddorion ac Arferion Sicrhau Ansawdd Asesu Mewnol\*
  - Sicrhau Ansawdd Asesu yn Fewnol\*
- \* Derbynnir yr hen Gymwysterau (D32/D32/D34, A1 a V1)
- gallu dangos tystiolaeth bod eu gwybodaeth am y grefft/diwydiant perthnasol yn gyfredol. Gall y dystiolaeth gynnwys darllen cyhoeddiadau'r diwydiant, cwblhau cyrsiau dysgu, mynychu digwyddiadau rhwydweithio perthnasol i'r cymhwyster, a/neu fynychu digwyddiadau'r diwydiant.

Mae gan Sicrhawyr Ansawdd Mewnol rôl ganolog i'w chwarae mewn sicrhau safoni asesiadau canolfannau. Dylent weithio gydag aseswyr i sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn cael eu dilyn bob amser ac i sicrhau bod penderfyniadau asesu gan wahanol aseswyr yn gyson, yn deg ac yn ddibynadwy. Bydd y gweithgareddau allweddol yn cynnwys:

- cwrdd ag aseswyr (yn unigol a gyda'i gilydd) drwy gydol y cymhwyster i drafod materion cysylltiedig â safoni a sicrhau ansawdd, a rhoi cymorth ac arweiniad lle bo angen,
- arsylwi aseswyr a rhoi adborth iddynt i'w helpu i wella eu techneg asesu,
- samplu tystiolaeth ar draws gwahanol garfanau i sicrhau y cwrddwyd â'r safonau priodol,
- trefnu i draws-farcio asesiadau er mwyn cymharu canlyniadau a chytuno ar feincnodau yn unol â hyfforddiant City & Guilds.

Bydd City & Guilds yn rhoi canllawiau i Sicrhawyr Ansawdd Mewnol canolfannau drwy gydol y broses o reoli newid.

## Sicrhau ansawdd allanol

**Mae'r Prosiect Ymarferol yn cael ei asesu'n fewnol a'i ddilysu'n allanol.**

**Mae'r Drafodaeth Broffesiynol yn cael ei hasesu'n allanol a'i dilysu'n allanol.**

Bydd ein tîm o Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol, sy'n fedrus yn dechnegol, yn dilysu penderfyniadau asesu canolfannau a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol yn allanol er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n ddilys ac yn ddibynadwy. Mae ein Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn dilyn prosesau dilysu cadarn. Maent yn monitro systemau asesu, ymarfer a chanlyniadau canolfannau yn unol â gofynion rheoleiddiol. Mae eu strategaethau samplu'n seiliedig ar 'CAMERA' (sicrhau sampl cynrychiadol o Ddysgwyr/Dysgwyr, Aseswyr, Dulliau Asesu, Tystiolaeth, Cofnodion a safleoedd Asesu).

Bydd City & Guilds yn:

- gwneud y gwaith sicrhau ansawdd angenrheidiol ar yr asesiad hwn, a all gynnwys arsylwi uniongyrchol, samplo asesiadau ac adborth gan ddysgwyr,
- cael trefn apelio gadarn yn ei lle ar gyfer dysgwyr.

## Swyddogion sicrhau ansawdd allanol

Mae Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn mynd drwy drefn gynefino, ac yn cael eu hyfforddi a'u safoni i sicrhau cysondeb. Maent yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar newidiadau i gymwysterau a bydd eu gwaith yn cael ei fonitro a'i samplo'n barhaus. Mae gwiriadau manwl yn sicrhau bod gan y swyddogion yr wybodaeth angenrheidiol, a'u bod wedi ennill cymwysterau Asesu Hyfforddiant a Sicrhau Ansawdd (TAQA) ar gyfer Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol. Bydd yr holl Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol ar gyfer Adeiladu a Pheirianeg Gwasanaethau Adeiladu yn cael eu briffio ar yr Adolygiad o'r Sector, gan gynnwys y gyfres newydd o gymwysterau.

Rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol:

- bod yn atebol i City & Guilds
- bod wedi ennill dyfarniad TAQA neu'n gweithio tuag at hynny, wedi cyflawni V2 neu D35 ac yn meddu ar dystiolaeth DPP o ymarfer yn unol â Safonau TAQA ac
- deall y broses asesu a defnyddio'r broses farcio yn gyson
- bod heb wrthdaro rhwng buddiannau â'r ganolfan asesu, er mwyn cynnal gwrthrychedd
- bod â'r ddealltwriaeth dechnegol/alwedigaethol berthnasol ofynnol yn y cymhwyster/cymwysterau/uned(au) y mae eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n allanol,
- gallu rhoi cyngor ac arweiniad i ganolfannau ar weithdrefnau asesu a sicrhau ansawdd mewnol.

Bydd City & Guilds yn

- gwneud y gwaith sicrhau ansawdd angenrheidiol ar y broses asesu, a all gynnwys arsylwi uniongyrchol, samplo asesiadau ac adborth gan ddysgwyr,
- cael trefn apelio gadarn yn ei lle ar gyfer dysgwyr.

## Rolau, cyfrifoldebau a sicrhau ansawdd

### Proffil asesydd mewnol

Rhaid i'r ganolfan roi manylion y gweithwyr y mae'n bwriadu iddynt fod yn gyfrifol am asesu i City & Guilds, er mwyn gallu eu cymeradwyo cyn iddynt ddechrau ymgymryd â'r gwaith. Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i aseswyr hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Gwneir hyn i sicrhau bod asesiadau mewn canolfannau yn ddibynadwy dros amser.

Rhaid i aseswyr fod yn gweithio tuag at (wedi cofrestru cyn gwneud unrhyw asesiadau) neu fod wedi ennill yr unedau canlynol:

- Uned: Deall Egwyddorion a Dulliau Asesu.\*
- Uned: Asesu cymhwysedd galwedigaethol yn yr amgylchedd gwaith\*
- Uned: Asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau galwedigaethol\*

a dal i ymarfer i'r safon honno.

\* Derbynnir yr hen Gymwysterau (D32/D32/D34, A1 a V1)

Rhaid i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys. Ceir tystiolaeth sy'n ategu hyn drwy i'r asesydd feddu ar NVQs perthnasol neu gymhwyster cyfwerth\* ar gyfer trothwy cymhwysedd galwedigaethol llawn y grefft a/neu drwy fod wedi cofrestru â chorff sy'n berthnasol i'r grefft neu feddu ar gydnabyddiaeth briodol sy'n dangos yn glir bod yr asesydd yn gymwys yn y grefft.

\*Dylai aseswyr, a gymhwysodd cyn i NVQ gael eu datblygu, ddarparu tystiolaeth o sut maent yn gymwys yn alwedigaethol (er enghraifft, ar ffurf CV neu Gofnod DPP ynghyd ag unrhyw eirdaon perthnasol).

### Gofynion ar gyfer aseswyr mewnol

Rhaid i Aseswyr Mewnol wneud y canlynol:

- cynnal a chofnodi asesiadau yn unol â threfniadau rheoleiddiol a City & Guilds, gan gynnwys:
  - ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais bob amser wrth gynnal yr asesiad
  - marcio'r asesiadau yn unol â'r meini prawf graddio.
- cynnal eu gwybodaeth am bolisiâu a gweithdrefnau asesu,
- cynnal a chofnodi eu DPP (i'w gyflwyno os gofynnir amdano),
- deall gofynion y sector, y cymhwyster a'r gofynion asesu,
- bod yn alwedigaethol gymwys,
- cynhyrchu gwaith papur clir, cywir a chryno a chofnodion perthnasol (ysgrifenedig ac electronig) a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u gweinyddu'n unol â gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu,
- gwneud penderfyniadau asesu cadarn,
- delio â gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion GDPR,
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds a chymryd rhan ynddynt – fel digwyddiadau cynefino, hyfforddiant/DPP a digwyddiadau safoni, a sicrhau bod unrhyw gynlluniau gweithredu/gwella personol yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt i'r safonau gofynnol,
- drwy adrodd unrhyw amheuaeth o gamymarfer neu gamweinyddu i'r SAM, gan gynnwys unrhyw gamymddwyn academiaidd,
- datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau (megis rhwng yr asesydd a'r dysgwr),
- darparu mynediad at wybodaeth a chofnodion pan wneir cais,
- cwblhau a chyflwyno pob adroddiad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

### Tyst arbenigol (i ddarparu tystiolaeth ategol ar gyfer Prosiect Ymarferol)

Gall tystion arbenigol sy'n gweithio gyda'r dysgwr yn rheolaidd gael eu henwebu a'u cadarnhau gyda'r darparwr dysgu/y ganolfan i gefnogi'r gwaith o gasglu tystiolaeth tra bydd dysgwyr yn ymgymryd â'r Prosiect Ymarferol. Nid yw tystion arbenigol yn gwneud penderfyniadau/dyfarniadau asesu, eu rôl yw darparu gwybodaeth, cyd-destun a safbwynt profiadol ar y gwaith a gwblhawyd gan y dysgwr fel rhan o dasg(au) penodol eu prosiect.

Er mwyn cael ei gadarnhau fel tyst arbenigol, rhaid i gynrychiolydd/cynrychiolwyr y cyflogwr:

- fod yn alwedigaethol gymwys – meddu ar gymhwyster perthnasol, gallu dangos profiad perthnasol yn y diwydiant/ crefft a/neu fod yn aelod o gorff crefft perthnasol a/neu fod wedi'i gydnabod ganddo.
- deall gofynion y sector, y cymhwyster a'r gofynion asesu,

## Proffil asesydd allanol (ar gyfer y Draffodaeth Broffesiynol)

Bydd aseswyr yr asesiad o'r Draffodaeth Broffesiynol yn cael eu penodi gan City & Guilds a byddant yn cynnal yr asesiad ar ran City & Guilds. Byddant yn annibynnol ar y ganolfan. Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i aseswyr hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds.

Mae'n rhaid i aseswyr fod wedi ennill neu fod yn gweithio tuag at gymhwyster asesu cydnabyddedig perthnasol a pharhau i ymarfer i'r safon honno. Dylai Aseswyr sydd â chymwysterau cynharach (A1, D32 neu D33) fod â thystiolaeth DPP hyd at y safonau diweddaraf.

Rhaid i aseswyr fod yn alwedigaethol gymwys. Ceir tystiolaeth sy'n ategu hyn drwy i'r asesydd feddu ar NVQ\* perthnasol ar gyfer trothwy cymhwysedd galwedigaethol llawn y grefft a/neu fod wedi cofrestru â chorff sy'n berthnasol i'r grefft neu wedi cael cydnabyddiaeth briodol sy'n dangos yn glir bod yr asesydd yn gymwys yn ei grefft.

\*Dylai aseswyr, a gymhwysodd cyn i NVQ gael eu datblygu, ddarparu tystiolaeth o sut y maent yn gymwys yn alwedigaethol (er enghraifft, drwy CV ynghyd ag unrhyw eirdaon perthnasol).

Cyn gwneud yr asesiadau cyntaf, rhaid i aseswyr hefyd gwblhau hyfforddiant City & Guilds. Mae hyn er mwyn sicrhau bod asesiadau yn ddibynadwy dros amser.

## Gofynion aseswyr allanol (ar gyfer y Draffodaeth Broffesiynol)

Rhaid i Aseswyr Allanol:

- paratoi'r Draffodaeth Broffesiynol yn llawn gan ddefnyddio tystiolaeth o'r prosiect,
- cynnal a chofnodi'r asesiad o'r Draffodaeth Broffesiynol yn unol â threfniadau rheoleiddiol a City & Guilds, gan gynnwys:
  - ymddwyn yn broffesiynol ac yn gwrtais bob amser wrth gynnal yr asesiad ar ran City & Guilds.
  - cyrraedd y ganolfan o leiaf 45 munud cyn yr asesiad ac aros yn y ganolfan drwy gydol yr asesiad (wrth gynnal asesiad wyneb yn wyneb)
  - marcio'r Asesiadau yn unol â'r meini prawf graddio.
- cynnal gwybodaeth drylwyr o bolisiâu a gweithdrefnau asesu,
- cynnal a chofnodi eu DPP (i'w gyflwyno os gofynnir amdano),
- deall gofynion y sector, y brentisiaeth a'r asesiad,
- bod yn gyfarwydd â'r technolegau diweddaraf a ddefnyddir yn y diwydiant,
- bod yn alwedigaethol gymwys,
- cynhyrchu gwaith papur clir, cywir a chryno a chofnodion perthnasol (ysgrifenedig ac electronig) a sicrhau eu bod yn cael eu rheoli a'u gweinyddu'n unol â gweithdrefnau'r cyrff dyfarnu,
- gwneud penderfyniadau asesu cadarn,
- trin gwybodaeth berthnasol yn unol â gofynion GDPR,
- paratoi ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau perthnasol City & Guilds a chymryd rhan ynddynt – fel digwyddiadau cynefino, hyfforddiant/DPP a digwyddiadau safoni, a sicrhau bod unrhyw gynlluniau gweithredu/gwella personol yn cael eu cyflawni yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt i'r safonau gofynnol,
- rhoi gwybod i City & Guilds am unrhyw amheuaeth o gamymarfer neu gamweinyddu, gan gynnwys camymddwyn academaidd,
- datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau (megis rhwng yr asesydd a'r prentis)
- darparu mynediad at wybodaeth a chofnodion pan wneir cais,

- cwblhau a chyflwyno pob adroddiad o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.

Mae'n rhaid iddynt allu dangos tystiolaeth bod eu gwybodaeth am y grefft/diwydiant perthnasol yn gyfredol. Gall y dystiolaeth gynnwys darllen cyhoeddiadau'r diwydiant, cwblhau cyrsiau dysgu, mynychu digwyddiadau rhwydweithio perthnasol i'r cymhwyster, a/neu fynychu digwyddiadau'r diwydiant.

### Swyddogion cyswllt/penodeion allanol

Swyddogion Cyswllt/Penodeion yw'r termau a ddefnyddir gan City & Guilds am unigolion a benodir gan City & Guilds neu EAL i ymgymryd â rolau penodol ar eu rhan, er enghraifft Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol ac Aseswyr Allanol.

Mae City & Guilds wedi pennu meini prawf i sicrhau bod gan yr holl swyddogion cyswllt/penodeion yr wybodaeth, y profiad a'r sgiliau galwedigaethol iawn i gyflawni'r rôl benodol.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod yr holl swyddogion cyswllt/penodeion sy'n ymgymryd â rôl sicrhau ansawdd yng nghyswllt cymeradwyo canolfannau, cymeradwyo cymwysterau a phenderfyniadau asesu wedi cael eu hyfforddi, bod ganddynt y cymwysterau priodol a'u bod yn gymwys yn alwedigaethol. Mae'n rhaid mynychu digwyddiadau safoni a hyfforddiant.

Caiff perfformiad yr holl swyddogion cyswllt/penodeion ei reoli gan staff City & Guilds. Os bydd pryderon yn cael eu nodi gyda golwg ar unigolyn, bydd pob un o bartneriaid City & Guilds yn cymryd camau cywiro a allai gynnwys camau gwella a monitro agos neu, mewn rhai achosion, gall materion ansawdd o ran perfformiad arwain at derfynu contract City & Guilds â'r aelod cyswllt/penodai.

Bydd City & Guilds yn sicrhau bod digon o swyddogion cyswllt/penodeion dwyieithog yn cael eu recriwtio i fodloni anghenion canolfannau cyfrwng Cymraeg a dysgwyr sy'n siarad Cymraeg. Bydd lefel y gwaith sicrhau ansawdd yn gyson ar draws y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Darperir ar gyfer monitro a safoni yn y ddwy iaith.

## Y Cyd-destun yng Nghymru

O ran unigolion nad ydynt wedi cynnal gweithgareddau asesu yng Nghymru o'r blaen, awgrymir y byddai ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg a dealltwriaeth o ddiwylliant, polisi a chyd-destun Cymru yn fuddiol i gefnogi eu rolau.

## Datblygiad proffesiynol parhaus

Mae disgwyl i ganolfannau helpu eu staff i wneud yn siŵr bod ganddynt yr wybodaeth a'r cymwyseddau diweddaraf yn y maes galwedigaethol a'u bod yn gwybod am yr arferion gorau o ran darparu, mentora, hyfforddi, asesu a sicrhau ansawdd, a bod hyn yn ystyried unrhyw ddatblygiadau deddfwriaethol neu genedlaethol.

## Darparu'r cymhwyster

### Gofynion mynediad i ddysgwyr

Nid yw City & Guilds yn gosod unrhyw ofynion mynediad ar gyfer y cymhwyster hwn. Rhaid i ganolfannau wneud yn siŵr bod gan ddysgwyr y potensial a'r cyfle i lwyddo i ennill y cymhwyster yn llwyddiannus.

Os yw'n cael ei gymryd fel rhan o brentisiaeth, yna mae'n rhaid bodloni gofynion penodol fel rhan o'r fframwaith prentisiaeth.

Gellir cofrestru ar gyfer y cymhwyster drwy Walled Garden. Mae mwy o wybodaeth ar wefan City & Guilds.

### Cyfyngiadau oedran

Nid oes modd i City & Guilds dderbyn unrhyw gofrestriadau ar gyfer dysgwyr o dan 16 oed, gan nad yw'r cymhwyster hwn wedi'i gymeradwyo ar gyfer unigolion o dan 16.

### Asesiad cychwynnol a chynefino

Dylid cynnal asesiad cychwynnol o bob dysgwr cyn i'w raglen ddechrau er mwyn nodi'r canlynol:

- a oes gan y dysgwr unrhyw anghenion hyfforddi penodol,
- y cymorth a'r arweiniad a allai fod eu hangen arno pan fydd yn gweithio tuag at ei gymhwyster,
- unrhyw ddysgu neu asesiad y mae eisoes wedi'i gwblhau sy'n berthnasol i'r cymhwyster (e.e. crefft berthnasol o'r Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2)),
- gellir ennill cydnabyddiaeth am gyflawniad blaenorol ar gyfer Prawf 1 lle mae dysgwyr wedi cyflawni'r cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) **Gwaith Toi - Llechi a Theils**.
- y math a'r lefel briodol o gymhwyster.

Rydym yn argymhell bod canolfannau'n darparu rhaglen gynefino er mwyn i'r dysgwr allu deall yn llawn beth yw gofynion y cymhwyster, beth yw ei gyfrifoldebau fel dysgwr a beth yw cyfrifoldebau'r ganolfan. Gellir cofnodi'r wybodaeth hon ar gontract dysgu.

### Deunyddiau ategol

Mae'r adnoddau canlynol ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn:

Disgrifiad	Sut mae cael gafael arno
Pecyn Asesu	<a href="https://www.skillsforwales.wales/cy/cymwysterau">https://www.skillsforwales.wales/cy/cymwysterau</a>

## Sicrhau ansawdd mewnol

Rhaid i ganolfannau gael strategaeth ysgrifenedig ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Fewnol.

Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol:

- yn darparu cywirdeb a chysondeb rhwng Aseswyr wrth ddefnyddio a dehongli'r canllawiau yn nogfennau'r cymhwyster a/neu'r dogfennau asesu
- yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.

## Cymedroli'r trefniadau asesu mewnol

Mae prosesau Sicrhau Ansawdd Allanol ar waith er mwyn gwirio dilysrwydd a dibynadwyedd penderfyniadau asesu a wneir gan staff canolfannau, fel sy'n briodol ar gyfer y cymhwyster hwn.

Bydd y Prosiect Ymarferol yn cael ei asesu'n fewnol, ei fonitro ar sail risg a'i samplo gan aseswyr ansawdd allanol i sicrhau bod penderfyniadau asesu'r ganolfan yn ddilys a chyson. Swyddogion cyswllt asesu sy'n meddu ar y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol fydd yn cynnal y gwaith sicrhau ansawdd. Bydd City & Guilds yn darparu adborth ysgrifenedig ffurfiol ar gyfer pob achos o samplo at ddibenion sicrhau ansawdd.

Bydd City & Guilds yn ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio sylweddol, neu feysydd pryder a nodir yn ystod gwaith monitro allanol. Mae'n bosib y bydd camau gwella priodol a/neu gosbau yn cael eu rhoi ar waith o ganlyniad i'r gwaith yma. Mewn rhai achosion, gall ymchwiliadau arwain at ddadgofrestru'r ganolfan/canolfannau dan sylw.

## Apeliadau mewnol

Rhaid i ganolfannau fod â phroses fewnol yn ei lle i ddysgwyr apelio yn erbyn marciau asesiadau sydd wedi cael eu marcio'n fewnol. Rhaid i'r broses fewnol gynnwys rhoi gwybod i ddysgwyr am y canlyniadau y mae'r ganolfan wedi'u rhoi ar gyfer elfennau sydd wedi'u hasesu'n fewnol, oherwydd bydd angen y rhain arnynt er mwyn penderfynu a ydynt am apelio neu beidio.

## Camymarfer

Cyfeiriwch at nodiadau cyfarwyddyd City & Guilds [Rheoli achosion lle ceir amheuaeth o gamymarfer mewn arholiadau ac asesiadau](#). Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth ganfod a rhoi gwybod am gamymarfer gan ddysgwyr a/neu staff canolfannau a'r camau y gall City & Guilds eu cymryd ar ôl hynny. Mae'r ddogfen yn cynnwys enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr a chanolfannau ac mae'n egluro cyfrifoldebau staff y ganolfan i roi gwybod am gamymarfer go iawn neu amheuaeth o gamymarfer. Mae'r ddogfen hon ar gael i'r canolfannau ar wefan City & Guilds.

Ceir enghreifftiau o gamymarfer gan ddysgwyr isod (noder nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- ffugio tystiolaeth asesu neu ddogfennau canlyniadau,
- llên-ladrad o unrhyw fath,
- cydgyllwynio ag eraill, copïo gwaith dysgwr arall (gan gynnwys defnyddio TGCh i'w helpu i gopïo), neu ganiatáu i rywun gopïo ei waith,
- dinistrio gwaith rhywun arall yn fwriadol,
- ffugio datganiadau dilysrwydd yng nghyswllt asesiadau,
- esgus bod yn rhywun arall.



Gallai'r gweithredoedd hyn gyfrif fel camymarfer, a bydd cosb (e.e. anghymhwysu o'r asesiad) yn berthnasol.

## Trefniadau mynediad

Mae trefniadau mynediad yn addasiadau sy'n caniatáu i unigolion ag anghenion ychwanegol ac anafiadau dros dro gael mynediad at yr asesiad a dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth heb newid gofynion yr asesiad. Mae'n rhaid gwneud y trefniadau hyn cyn cynnal yr asesiad.

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau y bydd dysgwyr yn gallu cael mynediad at holl ofynion y cymhwyster, a hynny ar ddechrau'r rhaglen.

I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch y dogfennau: *Trefniadau mynediad ac addasiadau rhesymol JCQ a Trefniadau mynediad - pryd a sut mae angen cyflwyno ceisiadau i City & Guilds*. Mae'r ddwy ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds yn: <https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/>

## Ystyriaeth arbennig

Gallwn roi ystyriaeth arbennig i ddysgwyr sydd wedi cael salwch dros dro, anaf neu anhwylder ar adeg yr asesiad.

Dylai ceisiadau ar gyfer naill ai trefniadau mynediad neu ystyriaeth arbennig gael eu cyflwyno i City & Guilds gan Swyddog Arholiadau'r Ganolfan. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch fersiwn gyfredol y ddogfen JCQ, *Arweiniad i'r broses ar gyfer ystyriaeth arbennig*. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan City & Guilds yn: <https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/>

## Crynodeb o'r asesiad

Mae **City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils** yn cael ei asesu gan ddefnyddio 3 dull asesu:

Math o asesiad	Dull asesu	Pwysoliad (Cyfraniad at radd gyffredinol y cymhwyster)
Asesiad Ar-Sgrin (Prawf 1 a 2)	Wedi'i osod yn allanol a'i farcio'n allanol	20%
Prosiect Ymarferol	Wedi'i osod yn fewnol, ei farcio'n fewnol, a'i ddilysu'n allanol	60%
Trafodaeth Broffesiynol	Wedi'i osod yn allanol, ei farcio'n allanol, a'i ddilysu'n allanol	20%

Gellir lawrlwytho pecyn asesu'n disgrifio gofynion yr asesiad oddi ar [wefan Sgiliau i Gymru](#).

Mae manylion am bob asesiad ar gael ym manylebau'r asesiadau yn y pecyn asesu.

Gellir ennill cydnabyddiaeth am gyflawniad blaenorol ar gyfer Prawf 1 lle mae dysgwyr wedi cyflawni'r cymhwyster Dilyniant mewn Adeiladu (Lefel 2) - **Gwaith Toi - Llechi a Theils**. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn y Pecyn Asesu.

## Amseru a chamau'r asesu

Rhaid dilyn y camau canlynol wrth asesu'r cymhwyster hwn:

- rhaid ymgymryd â phob uned, a rhaid cwblhau ac asesu pob un o'r gofynion perthnasol yn ystod y cyfnod y mae'r dysgwr wedi cofrestru.

Gellir asesu yn ôl y galw; rhaid i ganolfannau sicrhau bod dysgwyr wedi ymgymryd â phob dysgu gofynnol a'u bod wedi'u paratoi'n ddigonol ar gyfer ymgymryd â phob asesiad.

**Rhaid i Gadarnhad y Cyflogwr fod wedi'i gwblhau cyn dechrau'r Drafodaeth Broffesiynol.**

**Rhaid i ddysgwyr fod wedi cwblhau'r asesiad ar gyfer y Prosiect Ymarferol cyn ymgymryd ag asesiad y Drafodaeth Broffesiynol.**

## Rhyddhau canlyniadau

### Asesiadau ar-sgrin

Mae'r asesiad ar-sgrin yn cael ei farcio yn awtomatig a bydd y ganolfan yn derbyn y canlyniadau ar yr un diwrnod ag y cwblheir yr asesiad. Bydd proses rhyddhau canlyniadau'n cael ei dilyn gan City & Guilds pan fydd fersiynau newydd o asesiadau'n cael eu rhyddhau.

### Prosiect Ymarferol

Mae Prosiectau Ymarferol yn cael eu marcio'n fewnol a'u dilysu'n allanol. Mae marciau dros dro a roddir yn dilyn asesu mewnol yn cael eu trosi'n raddau gan ddefnyddio'r tablau marcio a graddio a ddarperir yn y Pecyn Asesu. Yna cyflwynir graddau dros-dro i City & Guilds drwy'r Walled Garden.

Bydd yr asesydd yn defnyddio tabl graddio'r Prosiect Ymarferol yn y Pecyn Asesu i gyfrifo gradd dros dro ar gyfer y dysgwr. Rhodir gwybod i'r dysgwr beth yw'r radd dros dro hon cyn pen wythnos iddo gwblhau'r asesiad, a dylid rhoi gwybod iddo mai gradd dros dro yw hi. Bydd canlyniadau dros dro yn destun sicrhau ansawdd mewnol ac allanol.

### Trafodaeth Broffesiynol

Mae'r Draffodaeth Broffesiynol yn cael ei marcio'n allanol a'i dilysu'n allanol. Bydd yr asesydd allanol yn defnyddio'r tablau marcio a graddio a ddarperir yn y Pecyn Asesu i farcio a rhoi gradd. Bydd City & Guilds yn rhyddhau'r marc dros dro ar gyfer yr asesiad hwn cyn pen 30 diwrnod gwaith ar ôl cynnal y Draffodaeth Broffesiynol.

Ar ôl cael y graddau a aseswyd yn fewnol ar gyfer y Prosiect Ymarferol, bydd y graddau ar gyfer hyn a'r asesiad ar-sgrin a'r Draffodaeth Broffesiynol yn cael eu cyfuno ar sail pwysoliad yr asesiad, yn unol â'r canllawiau ar gyfuno graddau yn y Pecyn Asesu, a gradd gyffredinol am y cymhwyster yn cael ei dyfarnu a fydd yn cael ei chyhoeddi gan City & Guilds.

### Canlyniadau cyffredinol y cymhwyster

Rhaid rhoi graddau dros dro i ddysgwyr ar gyfer y Prosiect Ymarferol a'r Draffodaeth Broffesiynol cyn pen wythnos i gwblhau pob asesiad. Dylid rhoi canllawiau ar natur dros dro'r canlyniadau hyn, gan gydnabod y bydd eu hansawdd yn cael ei sicrhau'n fewnol ac allanol a gradd derfynol ar gyfer y cymhwyster yn cael ei rhoi gan City & Guilds.

Rhodir gwybod i ganolfannau beth yw graddau terfynol y cymhwyster ar ôl cwblhau'r gwaith sicrhau ansawdd allanol. Bydd yr hysbysiad hwn yn cael ei dderbyn cyn pen wyth wythnos i'r ganolfan gyflwyno canlyniadau'r dysgwyr ar gyfer y Prosiect Ymarferol (ar ôl cwblhau'r Asesiad ar sgrin a'r Draffodaeth Broffesiynol).

## Ailgyflwyno/Ailsefyll asesiad

Os nad yw'r dysgwr yn llwyddo i gwblhau unrhyw un o'r asesiadau, mae ganddo hawl i ailsefyll/ailgyflwyno.

Mae arweiniad ar y gweithdrefnau ailsefyll/ailgyflwyno ar gyfer pob asesiad ar gael yn y Pecyn Asesu ar gyfer y cymhwyster hwn y gellir ei lwytho i lawr oddi ar wefan City & Guilds.

Os bydd gofyn i ddysgwr ailsefyll neu ailgyflwyno unrhyw asesiad, mae'n rhaid rhoi adborth a chefnogaeth briodol i'r dysgwr er mwyn iddo allu gwneud hynny o fewn amser penodol.

Os nad yw dysgwr yn bodloni'r meini prawf marcio gofynnol, dylai'r ganolfan weithio gyda'r dysgwr i roi sylw i'r meini prawf a fethwyd a chyfleoedd ar gyfer gwella a'i gefnogi i baratoi i gyrraedd y safon ofynnol.

Os nad yw dysgwyr yn hapus â deilliannau eu hasesiad, dylent gael gwybod am eu hawl i apelio.

Rhaid i ganolfannau gofnodi unrhyw gamau a gymerir a/neu unrhyw gefnogaeth ychwanegol a roddir i'r dysgwr. Nid oes cyfyngiad ar faint o weithiau y gall dysgwr ail-sefyll neu ailgyflwyno.

Am fwy o fanylion am sut i ailgyflwyno / ail-sefyll unrhyw asesiadau penodol, dylid darllen yr wybodaeth yn y Pecyn Asesu.

## Manylebau Asesu

### Asesiadau ar-sgrin

Mae manylion y prawf ar gyfer y ddau Asesiad ar-sgrin (Profion 1 a 2) ar gael yn y Pecyn Asesu.

### Prosiect Ymarferol

Cyfeiriwch at yr adran Prosiect Ymarferol yn y Pecyn Asesu.

### Trafodaeth Broffesiynol

Yr asesydd allanol fydd yn cynnal y Draffodaeth Broffesiynol. Bydd gofyn i'r ganolfan gytuno ar ddyddiad ar gyfer y draffodaeth gyda City & Guilds a sicrhau bod amgylchedd asesu addas yn cael ei ddarparu ar gyfer y draffodaeth hon. Rhaid cwblhau Cadarnhad y Cyflogwr cyn trefnu'r draffodaeth gyda City & Guilds.

Mae cynnwys yr uned sy'n cael sylw yn y Draffodaeth Broffesiynol wedi'i amlinellu yn y tabl isod.

<b>Y dysgwr yn myfrio ar y Prosiect Ymarferol:</b> Bydd yn defnyddio tystiolaeth y prosiect i ategu'r Draffodaeth Broffesiynol. Beth wnaeth y dysgwr, a pham ei fod wedi gwneud hynny.	
<b>Myfrio ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol a sgiliau'r canlynol:</b>	<b>Cyfeirnod yr Uned</b>
1.1 Trefnu'r adnoddau sydd eu hangen. 1.2 Gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg/tafgau 1.3 Gwneud gwaith cynllunio effeithlon 1.4 Rhesymu pam mai'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yw'r un mwyaf priodol 1.5 Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff y gwaith. 1.6 Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg a nodi'r camau i'w cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau 1.7 Nodi gofynion trosglwyddo'r gwaith.  2.1 Adolygu pa mor briodol yw'r meini prawf llwyddiant a bennwyd. 2.2 Gwerthuso'r defnydd a'r dewis o adnoddau 2.3 Gwerthuso'r allbwn gorffenedig 2.4 Gwerthuso ei berfformiad ei hun 2.5 Adolygu'r gwaith o gyflawni'r amserlenni. 2.6 Gwerthuso'r broses drosglwyddo.	303 – LO1, LO2
2.3 Sut i ddatblygu a chynnal perthynas waith gynhyrchiol	302 – LO2

City & Guilds Adeiladu (Lefel 3) – Gwaith Toi - Llechi a Theils

2.4 Sut i gyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyflogwyr a chydweithwyr a gyda rhanddeiliaid eraill drwy gydol prosiectau adeiladu/BSE	
4.1 Dulliau adeiladu cyn 1919 4.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern 4.3 Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21ain ganrif ar gyfer crefftau sydd wedi cael eu dewis	301 – LO4

## Graddio'r cymhwyster

Y graddau ar gyfer y cymhwyster hwn yw **Pasio, Teilyngdod, Rhagoriaeth**. Os bydd dysgwr yn methu, ni fydd yn cael tystysgrif.

Mae manylion ynghylch sut y gellir cyflawni'r graddau hyn a sut y cânt eu cyfrifo ar gael yn y pecyn Asesu.

## Allwedd cynnwys

Nod yr wybodaeth isod yw ceisio rhoi golwg gyffredinol ar strwythur cynnwys unedau a sut mae'r meysydd cynnwys yn gysylltiedig â'i gilydd yn ogystal â gwybodaeth am ddarparu ac asesu'r cymhwyster.

## Deilliannau dysgu

Mae'r deilliannau dysgu'n casglu sgiliau ymarferol a/neu wybodaeth gysylltiedig ynghyd ac fe'u cyflwynir fel canlyniad y broses ddysgu, h.y. beth sy'n rhaid i'r dysgwr ei ddeall neu allu ei wneud ar ddiwedd yr addysgu a'r dysgu. Mae nifer o feini prawf asesu yn ategu pob deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae'r deilliant dysgu hwn yn ymwneud â'r gwahanol gyrrff a sefydliadau crefft yn y sector adeiladu.

### *Deilliant dysgu:*

1. Gwybod am y cyrrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

## Meini Prawf

Mae'r meini prawf asesu yn rhannu'r deilliant dysgu yn feysydd llai i'w trafod. Y meini prawf hyn fydd yn cael eu hasesu yng nghyswllt y deilliant dysgu. Yn yr enghraifft isod, mae maen prawf asesu 1.5 yn ymwneud â rôl y CITB yn y sector adeiladu, sydd wedi'i ysgrifennu ac a asesir yn erbyn y deilliant dysgu.

### *Meini Prawf*

- 1.5 Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a'i rôl yn y sector adeiladu

## Ystod

Mae'r ystod yn cynnwys gwybodaeth am yr ehangder sy'n ofynnol ar gyfer maen prawf penodol, er enghraifft, hyfforddi, cofrestru ayb. Nid yw'r ystod yn rhestr gynhwysfawr. Mae'n bosib y bydd enghreifftiau eraill a allai ddod o dan y maes pwnc hwn, ond, mae'r rhai sydd wedi'u rhestru yn yr ystod yn allweddol ar gyfer darparu cynnwys yr uned - **mae'n rhaid cynnwys pob elfen sydd wedi'i rhestru yn yr ystod wrth ddarparu'r uned.**

*Ystod: Hyfforddiant a DPP; cofrestru*

## Dyfnnder y cynnwys

Mae dyfnnder y cynnwys yn amlinellu pa mor fanwl y mae'n rhaid mynd drwy'r cynnwys. Mae hyn yn golygu bod modd canolbwyntio'r addysgu ar y lefel gywir er mwyn i'r dysgwr fod yn barod i gael ei asesu. Er enghraifft, mae 'dylai dysgwyr gydnabod y rhesymau' yn tynnu sylw at y ffaith y bydd yn rhaid i'r dysgwyr ddeall 'sut' neu 'pam' yng nghyswllt yr ystod.

### ***Deilliannau darparu (dyfnnder y cynnwys)***

*1.5 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) o ran ei gymorth a'i gyllid ar gyfer hyfforddiant a DPP parhaus. Byddant yn deall y gofynion ar gyfer cofrestru cwmnïau a rhwydwaith o grwpiau hyfforddi ac ymgynghorwyr CITB ledled y wlad.*



## Cynnwys yr Unedau

## Uned 301: Deall Arferion Adeiladu yng Nghymru

---

<b>Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):</b>	40
---	----

---

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Pwrpas yr uned hon yw i ddysgwyr archwilio a deall cwmpas eang a newidiol y sector adeiladu yng Nghymru o arferion cyn 1919 i ddatblygiadau yn y dyfodol. Bydd yn rhoi golwg gyffredinol ac yn gosod y cyd-destun ar gyfer gweithio yn y sector adeiladu yng Nghymru.

### Argymhellir bod yr uned hon yn cael ei chyflwyno cyn yr uned Gweithio yn y Sector Adeiladu yng Nghymru.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu
- deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu
- gwybod am y newidiadau mewn pwysau a deunyddiau adeiladu dros amser
- gwybod am y newid mewn dulliau adeiladu dros amser
- deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pam ddylwn i ymuno ag undeb?
- Beth yw ystyr gwahanol liwiau'r cardiau CSCS?
- Sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn berthnasol i adeiladu?
- Beth mae economi gylchol yn ei olygu?
- Beth yw BREEAM?

## Deilliant dysgu

### 1. Gwybod am y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

#### Meini Prawf

1.1 Y cyrff a'r sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

1.2 Rôl cyrff a sefydliadau crefft yn y sector adeiladu

1.3 Y cynlluniau cerdyn cymhwysedd yn y sector adeiladu a'r mathau o gardiau sydd ar gael

1.4 Cofrestriad proffesiynol fel gweithiwr adeiladu proffesiynol

1.5 Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) a'i rôl yn y sector adeiladu

**Ystod:** Hyfforddiant a DPP; cofrestru

### 2. Deall arferion cysylltiedig yn y diwydiant adeiladu

#### Meini Prawf

2.1 Rhyngddibyniaethau rhwng crefftau

**Ystod:** Y berthynas rhwng crefftau unigol a chrefftau eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd, o adeiladu o'r newydd i atgyweirio strwythurau traddodiadol

### 3. Gwybod am y newidiadau mewn pwysau a deunyddiau adeiladu dros amser

#### Meini Prawf

3.1 Dulliau adeiladu cyn 1919

**Ystod:** pwysau (dylanwadau daearyddol, angen lleol), deunyddiau (ar gael yn rhanbarthol)

3.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 hyd at y cyfnod modern

**Ystod:** pwysau (cadwyn gyflenwi, galw o ran y diwydiant, poblogaeth); deunyddiau (safoni, arloesi)

3.3 Adeiladu yn yr 21ain ganrif

**Ystod:** pwysau (newid yn yr hinsawdd, ôl troed carbon, argaeledd adnoddau); deunyddiau (calch; deunyddiau adeiladu naturiol; deunyddiau a gynhyrchwyd drwy ddulliau peirianyddol)

## 4. Gwybod am y newid mewn dulliau adeiladu dros amser

### Meini Prawf

#### 4.1 Dulliau adeiladu cyn 1919

**Ystod:** deunyddiau, offer a thechnegau a ddefnyddiwyd cyn 1919

#### 4.2 Technegau adeiladu ar ôl 1919 ac yn y cyfnod modern

**Ystod:** esblygiad dulliau a thechnegau adeiladu modern wedi'u llywio gan newidiadau mewn deunyddiau, offer a thechnegau

#### 4.3 Technegau a thechnolegau adeiladu yn yr 21ain ganrif ar gyfer crefft sydd wedi cael ei dewis

**Ystod:** gweithgynhyrchu oddi ar y safle; cydrannau adeiladu parod; argraffu cydrannau adeiladu 3-D; economi gylchol, dylunio cynaliadwy ac ôl-ffitio; inswleiddio; awyru; technolegau newydd a datblygol

## 5. Deall y berthynas rhwng crefftau a'r amgylchedd

### Meini Prawf

#### 5.1 Cynaliadwyedd a rheoleiddio'r diwydiant

#### 5.2 Ystyriaethau ac egwyddorion ecolegol

#### 5.3 Dulliau cynaliadwy

**Ystod:** Adfer gwres ac awyru, casglu dŵr glaw, celloedd tanwydd, paneli solar, pypiau gwresogi ac oeri, adeiladau di-garbon

#### 5.4 Gwaredu gwastraff ym maes adeiladu

**Ystod:** Lleihau gwastraff, gwaredu gwastraff, egwyddorion ailgylchu ym maes crefft y dysgwr

### Deilliannau Darparu (dyfnder y cynnwys)

#### Deilliant 1

**1.1** Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'r ystod lawn o sefydliadau crefft yn y sector adeiladu, gan gynnwys y corff crefft ymbarél – Build UK; y ffederasiynau prif ffrwd mwy fel yr FMB (Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr) a'r NFB (Ffederasiwn Cenedlaethol yr Adeiladwyr).

Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod am y sefydliadau arbenigol sy'n cwmpasu pob agwedd arbenigol ar y diwydiant adeiladu yn y maes crefft o'u dewis. Mae'r ffederasiynau arbenigol yn cynnwys y Gymdeithas Diogelwch Tân, y Ffederasiwn Toi Cenedlaethol, Grŵp Hyfforddi'r

Diwydiant Cerrig Naturiol, Cymdeithas Contractwyr Llawr Diwydiannol Concridd, Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE) a Chymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil Cymru (CECAW).

Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y ffederasiynau crefft penodol sy'n cefnogi eu crefft, ac amrywiaeth o gymdeithasau ychwanegol sy'n cefnogi elfennau mwy arbenigol eu crefft. Bydd dysgwyr yn gwybod am gofrestrïadau proffesiynol sydd ar gael ar gyfer y maes crefft o'u dewis.

**1.2** Bydd dysgwyr yn deall rôl sefydliadau crefft yn y sector adeiladu. Dylai hyn gynnwys rôl cryfhau, uno ac eirioli Build UK; y sicrwydd y mae aelodaeth cwmni o FMB neu NFB yn ei gynnig i gwsmeriaid, yn ogystal â'r cymorth busnes a'r rheolaeth ansawdd y maent yn ei gynnig i aelodau; a 'llais', hyfforddiant a chymorth technegol y mae cymdeithasau arbenigol yn ei gynnig i gontractwyr arbenigol.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o undebau, a'u gwasanaethau/buddion.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y cynlluniau cardiau ar gyfer crefftau adeiladu, gan gynnwys y cerdyn CSCS gorfodol. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl darparwyr cardiau a gofynion cofrestru a chymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl cynlluniau person cymwys a'r cyfle i ddod yn aelodau o gyrrff fel FMB neu NFB.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl darparwyr cardiau a gofynion cofrestru a'r angen am gymwysterau sy'n cael eu cydnabod gan y diwydiant.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw manteision cofrestrïad proffesiynol gyda'r sefydliad adeiladu proffesiynol perthnasol, megis: y potensial i ennill mwy, gwell rhagolygon gyrrfa a chyflogadwyedd, statws uwch sy'n arwain at fwy o hunan-barch, cydnabyddiaeth ryngwladol o gymhwysedd ac ymrwymiad, tystiolaeth o arbenigedd, mwy o ddylanwad yn eu sefydliad a'u diwydiant eu hunain, a chydnabyddiaeth fel adlofnodwr.

**1.5** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw rôl Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) o ran ei gymorth a'i gyllid ar gyfer hyfforddiant a DPP parhaus. Bydd dysgwyr yn deall y gofynion ar gyfer cofrestru cwmnïau a rhwydwaith o grwpiau hyfforddi ac ymgynghorwyr CITB ledled y wlad.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall y berthynas rhwng eu dewis grefft a chrefftau eraill mewn gwahanol gyd-destunau, o adeiladu o'r newydd i atgyweirio strwythurau traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn deall sut mae crefftau unigol yn gweithio gyda'i gilydd ac yn rhyngweithio. Bydd dysgwyr yn deall y ffics cyntaf a'r ail, er enghraifft, a'r mathau o broblemau sy'n gallu codi a sut mae eu lliniaru.

Gellir cysylltu rhyngddibyniaethau ag arferion gweithio diogel, cynllunio, math o eiddo/cyd-destun, a chysylltiadau gweithio da a chyfathrebu da. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwahanol grefftau'n rhyngweithio ar draws gwahanol sefyllfaoedd a sut mae'r rhyngweithio a'r rolau hyn wedi newid dros amser.

### Deilliant 3

**3.1** Pwysau: Angen lleol (math o strwythurau a sut maent yn cael eu defnyddio, anghenion y diwydiant, anghenion diwylliannol). Dylanwadau daearyddol – yr adnoddau sydd ar gael yn lleol, yr hinsawdd leol (ystyriaethau'r tywydd) dylanwad lleol ar ddulliau ac arddulliau; natur unigryw lleol.

Deunyddiau: Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion sylfaenol a'r defnydd a wneir o forterau, agregau, glynwyr, gorffeniadau swyddogaethol ac addurniadol mewnol ac allanol, cerrig, llechi, pren a phridd. Bydd y dysgwyr yn gwybod beth yw natur hydraidd calch a morterau daear.

Yn benodol i'r cyfnod hwn, bydd dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth o gludo deunyddiau a'r gadwyn gyflenwi; manteision defnyddio deunyddiau sydd ar gael yn y rhanbarth yn lleol i safleoedd gwaith, a'r rhwystrau/problemau sy'n gysylltiedig â defnyddio deunyddiau nad ydynt yn lleol i safleoedd gwaith.

**3.2** Pwysau: Bydd dysgwr yn gwybod bod y datblygiadau ym maes trafndiaeth wedi dylanwadu ar y gadwyn gyflenwi ers y chwyldro diwydiannol a bod hanes hir o symud deunyddiau ar hyd yr arfordir sy'n dyddio'n ôl i gyfnod cyn y chwyldro diwydiannol.

Ymwybyddiaeth o ffynonellau deunyddiau adeiladu, gan gymharu deunyddiau a geir yn lleol â'r rheini a fewnforir i ranbarth.

Bydd dysgwyr yn gwybod bod y dewis o ddeunyddiau yn aml yn adlewyrchu statws yr adeilad. Er enghraifft, roedd deunyddiau gwerth uwch yn aml yn cael eu defnyddio ar gyfer eglwysi, yn enwedig ar gyfer y ffenestri a nodweddion dylunio addurniadol eraill. Mae angen i ddysgwyr ddeall y ffactorau sy'n sail i'r dewisiadau hyn.

Deunyddiau: Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion sylfaenol slabiau congrid, brics a blociau, dur, gwydr, plastigau, deunyddiau cyfansawdd, safoni deunyddiau, a phlenni atal lleithder.

Y rôl y mae deunyddiau fel sment, gwydr a dur wedi'i chwarae yn y diwydiant, a'r effaith y mae datblygiadau arloesol o ran deunyddiau wedi'i chael ar raddfa a chyflymder gwaith adeiladu gan gynnwys cost-effeithiolrwydd a chadernid. Bydd dysgwyr yn deall pam fod plenni atal lleithder (DPC, DPM) wedi'u cynnwys mewn adeiladau ar ôl 1919.

**3.3** Pwysau: Bydd dysgwyr yn gwybod am y pwysau cynyddol o du'r newid yn yr hinsawdd ac ôl troed carbon y diwydiant adeiladu, ac yn eu deall. Mae angen dealltwriaeth o bwysigrwydd effeithlonrwydd ynni ac ynni corfforedig o ran cyrraedd y targed di-garbon. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i'r diwydiant Adeiladu.

Deunyddiau: Bydd angen i ddysgwyr wybod priodweddau a defnydd calch (calchwaith, rendrau calch a morterau a phlastrau); deunyddiau adeiladu naturiol a deunyddiau a gynhyrchwyd drwy ddulliau peirianyddol (pren, pren wedi'i asetylu, brics a blociau wedi'u llunio/ail-lunio â pheiriant, congrid wedi'i falu ac agregau gwydr, brics a blociau wedi'u hawyru).

Bydd dysgwyr yn adnabod yr angen am gynaliadwyedd adeiladau traddodiadol a brodorol; deunyddiau adeiladu cynaliadwy; ynni corfforedig, dewis deunyddiau ac ansawdd, effeithlonrwydd ynni, rheoli gwastraff a deunyddiau wedi'u hailgylchu. Mae cynaliadwyedd hefyd yn cynnwys ailddefnyddio adeiladau, yn hytrach na'u dymchwel ac adeiladu rhai newydd, yn ogystal â gwella perfformiad thermol adeiladau modern sydd eisoes yn bodoli a rhai traddodiadol.

Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi gweithgynhyrchu oddi ar y safle; adeiladau modiwlaid, cydrannau adeiladu parod; technolegau adeiladu digidol.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ddulliau traddodiadol o dirfesur a dylunio adeiladau, yn ogystal â gwaith adeiladu modern gan gynnwys meddalwedd dylunio digidol, offer clyfar, technolegau ac apiau, dronau, roboteg, BIM, CAD, modelu 3D, ac efelychiadau.

Bydd gan ddysgwyr wybodaeth am feddalwedd sy'n gysylltiedig â 2D a 3D. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod offer sydd wedi'u galluogi'n glyfar a manteision eu defnyddio mewn adeiladu o'u cymharu â dulliau traddodiadol/presennol.

Bydd dysgwyr yn gallu gweld ble a sut y gellir defnyddio technolegau, apiau, dronau a roboteg ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, a manteision a rhwystrau eu defnyddio.

Bydd gan ddysgwyr wybodaeth sylfaenol am y cysyniad o argraffu 3D gan gynnwys ei ddefnydd, ei fanteision a'i gyfyngiadau o ran cynllunio, dylunio, modelu ac adeiladu.

## Deilliant 4

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod y dulliau adeiladu nodweddiadol ar gyfer adeiladau cyn 1919, a dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o adeiladu strwythurau toi traddodiadol (nenfforch, toriad a chypledig) a gorchuddion to (llechi, teils, cerrig, to gwellt) gan ddefnyddio mortar calch a blew ceffyl, morthwylion, cyllyll a llifiau llaw.

**4.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu nodweddiadol ar gyfer adeiladau ar ôl 1919, a dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis.

Bydd dysgwyr yn deall datblygiad arferion adeiladu yn y grefft o'u dewis, er enghraifft:

- dulliau adeiladu ceudod bricks ac amrywiadau diweddarach i ddyluniad waliau ceudod.
- cydrannau llawr, waliau, toeau a gwaith coed parod

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau o adeiladu strwythurau toi (lapiad sengl, lapiad dwbl, ishaenau ffelt, gwaith plwm) a gorchuddion to (llechi, teils, cerrig, concriid) gan ddefnyddio offer pŵer 110v fel driliau a thrawslifiau.

**4.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau adeiladu newydd ar gyfer adeiladau'r 21ain ganrif, a dylai hyn gynnwys y deunyddiau, yr offer a'r technegau sy'n berthnasol i'r grefft o'u dewis. Bydd dysgwyr yn gwybod am y technolegau newydd/datblygol yn eu crefft. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cael gafael ar wybodaeth am ddatblygiadau newydd yn eu crefft – er

enghraifft, drwy sefydliadau proffesiynol, cyrff y diwydiant a chymdeithasau crefft, erthyglau, y wasg grefftau, DPP ffurfiol, gwybodaeth gwneuthurwyr ac ati.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o raglenni adeiladu, tirfesur a dylunio modern gan gynnwys BIM, CAD, modelu 3D, efelychu a dronau, yn ogystal â dulliau traddodiadol o arolygu adeiladau a dylunio fel sy'n berthnasol i'w crefft.

Bydd dysgwyr yn deall dulliau dylunio ac adeiladu modiwlaid ar gyfer eu crefft.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth mae'r termau canlynol yn ei olygu o ran adeiladu a'u crefft hwy: yr economi gylchol, dylunio cynaliadwy ac ôl-ffitio; inswleiddio; rheoli lleithder; awyru.

Bydd dysgwyr yn gwybod am ddulliau modern o adeiladu strwythurau toi (cynnyrch to GRP, ffenestri to, mortar wedi'i addasu â polymerau) a gorchuddion to (teils, cerrig, ffitiadau UPVC) gan ddefnyddio offer pŵer sy'n rhedeg ar fatri fel driliau a thrawslifiau.

## Deilliant 5

**5.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am nodweddion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Diogelu'r Amgylchedd, PAS 2030 a PAS 2035, y Rheoliadau Gwastraff Peryglus, y Ddeddf Atal a Rheoli Llygredd, y Ddeddf Rheoli Llygredd. Bydd y dysgwr yn gwybod gwerth delweddu thermol mewn arferion adeiladu sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac yn deall codau arferion da BREEAM a Passivehaus.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw hanfodion ôl-ffitio'r ystod lawn o stoc adeiladu mewn modd cyfrifol, gan gynnwys traddodiadol a modern

Bydd dysgwyr yn gwybod y Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 a'r Cosbau am dorri'r gyfraith (e.e. tarfu ar glwydfa ystumod neu nythfa o Fadfallod).

Bydd dysgwyr yn gwybod sut gall dyluniad prosiectau adeiladu helpu gydag effeithlonrwydd ynni a'r ddolen gyswllt i gynnwys cartrefi clyfar a thechnolegau clyfar, fel synwryddion a rheolyddion.

**5.2** Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ystyriaethau ac egwyddorion ecolegol ac yn gwybod sut mae hyn yn berthnasol i adeiladu ac i'r amgylchedd adeiledig. Bydd gan ddysgwyr werthfawrogiad sylfaenol o gynefinoedd mewn perygl, ardaloedd o orlifdiroedd, gwrthbwysio bioamrywiaeth a'r prif rywogaethau a warchodir, a deddfwriaeth gyfredol sy'n ymwneud â bywyd gwyllt a chynefinoedd.

**5.3** Bydd dysgwyr yn gallu adnabod yr ystyriaethau cynaliadwy a ddefnyddir ym maes adeiladu a'r amgylchedd adeiledig a chydabod cwmpas eu defnydd i gynnal adeilad iach. Bydd dysgwyr hefyd yn gallu nodi'r ffyrdd y gall adeiladau wrthbwysu eu hól troed carbon.



**5.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut y gall defnyddio gwahanol ddeunyddiau leihau effaith amgylcheddol yn eu maes crefft, ac egwyddorion y '3 A' o reoli gwastraff (arbed, aildefnyddio ac ailgylchu).

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o bwysigrwydd archebu deunyddiau'n gywir er mwyn lleihau gwastraff safle ac arbed arian ar archebu gormod a chostau gwaredu gwastraff. Storio deunyddiau mewn modd priodol, rheoli'r stocrestr a didoli gwastraff yn briodol ar y safle.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ganllawiau arfer da fel WRAP ar gyfer rheoli gwastraff y diwydiant. Bydd dysgwyr yn deall natur deunyddiau ailgylchadwy a bioddiraddadwy a'r effaith y mae'n ei chael ar dirlenwi a'r gost i'r amgylchedd a'r math o ddeunyddiau sy'n cael eu hailgylchu'n gyffredin ar y safle.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut y gall deunyddiau sgrap ddal gwerth (yn cynnwys copr) gan ei fod yn adnodd cyfyngedig ac yn gwybod am y gofrestr gyhoeddus o'r rhai sy'n delio mewn metel sgrap yng Nghymru.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cael gwared ar wastraff peryglus gan gynnwys casglu gwastraff asbestos ffibrog ac asbestos wedi ei fondio â sment. Defnyddio cludwyr gwastraff trwyddedig, broceriaid a masnachwyr. Y canlyniadau i'ch hunan, i eraill, ac i'r amgylchedd o beidio â dilyn yr arferion gorau, a dilyn gofynion statudol mewn perthynas â gwaredu gwastraff.

Bydd dysgwyr yn gwybod am agweddau allweddol rheoliadau gan gynnwys Deddf Diogelu'r Amgylchedd, Rheoliadau Gwastraff Peryglus, Deddf Atal a Rheoli Llygredd, Deddf Rheoli Llygredd, Rheoliadau Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.

## Uned 302: Gweithio yn y Sector Adeiladu yng Nghymru

Oriau Dysgu dan  
Arweiniad (GLH):

40

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn rhoi dealltwriaeth gyfannol i'r dysgwyr o'r amgylchedd adeiledig yng Nghymru, sut y mae wedi newid, a'r angen am amgylchedd adeiledig diogel a chyflawni prosiectau/gwaith diogel.

Bydd dysgwyr hefyd yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cynllunio ac adolygu gwaith, a sut mae gwneud gwaith cynllunio a gwerthuso effeithiol. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio a chyfathrebu'n effeithiol ag eraill.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru
- deall sut i weithio'n effeithiol gydag eraill

### Argymhellir cyn ymgymryd â'r uned hon y dylai'r uned Deall Arferion Adeiladu yng Nghymru fod wedi'i haddysgu i ddysgwyr.

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw PESTLE?
- Sut bydd y rheoliadau Dylunio a Rheoli Adeiladu (CDM) yn effeithio ar fy arferion gweithio?
- Sut gallwn ni ddatblygu a chynnal tîm sy'n perfformio'n uchel?
- Sut mae cael enw da fel crefftwr?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru

#### Meini Prawf

##### 1.1 Y stoc adeiladau yng Nghymru

**Ystod:** ffurfiau, dibenion, deunyddiau'n newid, cyfnodau stoc adeiladu yng Nghymru

##### 1.2 Ffactorau sy'n dylanwadu ar newid yn yr amgylchedd adeiledig yng Nghymru

**Ystod:** gwleidyddol, amgylcheddol, cymdeithasol, technolegol, cyfreithiol, ac economaidd

##### 1.3 Diogelwch yr amgylchedd adeiledig

### 2. Deall sut i weithio'n effeithiol gydag eraill

#### Meini Prawf

##### 2.1 Sut i ddatblygu a chynnal perthnasoedd gwaith cynhyrchiol

##### 2.2 Sut i gyfathrebu'n effeithiol â chleientiaid, cyflogwyr a chydweithwyr a gyda rhanddeiliaid eraill drwy gydol prosiectau amgylchedd adeiledig

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

##### Deilliant 1

Yn y deilliant dysgu hwn bydd dysgwyr yn cael dealltwriaeth gyfannol o'r sector adeiladu. Mae'r canlyniad hwn yn adeiladu ar yr uned: Deall Arferion Adeiladu yng Nghymru, Dysgu.

##### 1.1 Ar gyfer y strwythurau domestig canlynol, bydd dysgwyr yn gallu nodi prosiectau ôl-ffitio, adnewyddu a datblygu sy'n sicrhau bod yr adeiladau'n cyrraedd y safonau rheoleiddio presennol, gan gynnwys ARBED. Bydd dysgwyr yn gwybod y canlynol:

Tai: ynghlwm ac ar wahân

Cyn 1919:

- carreg solet
- brics solet
- ffrâm bren draddodiadol

Wal geudod:

- brics a blociau

- ffrâm bren fodern – pren gyda blociau allanol

Rhagsaernïo a chynnydd mawr mewn tai:

- Tai ar ôl yr Ail Ryfel Byd
- gwaith rhagsaernïo modern oddi ar y safle
- fflatiau – rhandai uchel.

Bydd dysgwyr yn deall y rhesymau y tu ôl i ragasaernïo – arbedion maint yn bennaf, a'r gallu a'r angen i ddarparu tai o ansawdd gwell o fewn cyfnod byr.

Bydd dysgwyr yn deall yr angen am dai sy'n defnyddio ynni'n effeithlon:

- ôl-ffitio
- deunyddiau naturiol
- BREEAM a Passivhaus
- yr angen i gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu

BREEAM yw'r dull a ddefnyddir fwyaf yn y DU i adolygu a gwella perfformiad amgylcheddol a lleihau effeithiau amgylcheddol adeiladau newydd a rhai sy'n bodoli eisoes. Mae adeiladau Passivhaus yn darparu lefel uchel o gysur i'r preswlydd tra'n defnyddio ychydig iawn o ynni ar gyfer gwresogi ac oeri. Maent yn cael eu hadeiladu gan roi sylw manwl i fanylion a dylunio ac adeiladu trylwyr yn unol â'r egwyddorion a ddatblygwyd gan Sefydliad Passivhaus yn yr Almaen a gellir eu hardystio drwy broses sicrhau ansawdd fanwl.

Safon Adeiladu WELL. Mae WELL yn system seiliedig ar berfformiad ar gyfer mesur, ardystio a monitro nodweddion yr amgylchedd adeiledig sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl, drwy aer, dŵr, maeth, golau, ffitrwydd, cysur a meddwl.

Bydd dysgwyr yn deall y gofynion i gyrraedd targedau arbed ynni.

Unedau diwydiannol a ffatrioedd:

- ffatrioedd a warysau hanesyddol
- 20fed Ganrif
- unedau diwydiannol modern gan gynnwys canolfannau siopa.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth mae aildefnyddio adeiladau a deunyddiau adeiladu yn ei gynnwys ac yn gwybod am y mathau o adeiladau sydd ar gael at ddibenion lluosog/addasadwy.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd effeithlonrwydd ynni ac ynni corfforedig o ran cyrraedd y targed di-garbon. Bydd dysgwyr yn deall gwerth cynnal a chadw ac atgyweirio'r stoc dai bresennol o ran cynaliadwyedd ac arbed carbon o'i gymharu â chodi adeiladau newydd yn lle adeiladau presennol yr 20fed ganrif.

### **Newid i ddeunyddiau**

Bydd dysgwyr yn deall y newidiadau a ddigwyddodd yn sgil cyflwyno'r broses o safoni deunyddiau a pha effaith mae hyn yn ei chael ar y diwydiant adeiladu. Bydd dysgwyr yn deall rôl safoni mewn perthynas â diogelwch yn y diwydiant, yn ogystal â bod argaeledd deunyddiau o ansawdd a pherfformiad cydnabyddedig yn bwysig, yn enwedig o ran datblygu a gweithgynhyrchu deunyddiau newydd a'u defnydd mewn adeiladu modern.

Bydd dysgwyr yn gwybod y rôl y mae deunyddiau fel sment, gwydr a dur wedi'i chwarae yn y diwydiant ac yn eu crefft hwy eu hunain, a'r effaith y mae datblygiadau arloesol o ran deunyddiau wedi'i chael ar raddfa a chyflymder gwaith adeiladu.

Bydd dysgwyr yn deall pam mae pilenni atal lleithder (DPC, DPM) wedi'u cynnwys mewn gwaith adeiladu ar ôl 1919 a pham nad ydynt yn addas ar gyfer strwythurau waliau solet.

### 1.2 Bydd dysgwyr yn deall dylanwadau PESTLE gan gynnwys:

- gwleidyddol: sut mae mentrau'r llywodraeth/newidiadau mewn llywodraeth yn effeithio ar y sector adeiladu a'r amgylchedd adeiledig, cyfreithiau, trethi a sut y mae hyn yn effeithio ar y galw,
- amgylcheddol: targedau i leihau allyriadau, gwarchod yr amgylchedd naturiol/adeiledig
- cymdeithasol: oedran y boblogaeth/demograffig, gofynion diwylliannol, twf yn y boblogaeth
- technolegol: technolegau newydd a defnyddio technoleg, newidiadau mewn deunyddiau ac arloesi,
- cyfreithiol: rheoliadau newydd/newidiadau i reoliadau ac ati fel caniatâd cynllunio/caniatâd Rheoliadau Adeiladu, diogelwch adeiladau a gwasanaethau adeiladu
- economaidd: fforddiadwyedd, diweithdra/cyflogaeth, a'r economi.

Bydd dysgwyr yn nodi'r prif resymau dros gynnydd a gostyngiad yn y galw am dai dros y 100 mlynedd diwethaf a'r ffordd y mae hyn wedi achosi amrywiadau o ran adeiladu tai.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am ddatblygiadau ym maes dylunio pensaernïol a gwyddor deunyddiau, a'u dylanwad ar adeiladu modern, gan gydnabod hefyd bod angen canolbwyntio ar ddiogelwch defnyddwyr yn y tymor hir wrth addasu, creu a chynnal adeiladau. Bydd hyn yn cynnwys deunyddiau adeiladu, cynnyrch a gwasanaethau a rôl Rheoliadau CDM (Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli)) a'r wybodaeth hanfodol y gellir ei rhagweld i'w darparu ar gyfer gwaith cynnal a chadw, atgyweirio a glanhau'r adeilad yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn deall marciau sicrwydd ansawdd cynhyrchion (fel y nod CE) a pherthnasedd y Rheoliadau Cynhyrchion Adeiladu. Mae'r canllawiau rheoliadau adeiladu Dogfen Gymeradwy 7: deunyddiau a chreffftwaith, Nod Barcud BSI, y Datganiad Cydymffurfio, a gofynion crefft benodol ar gyfer cynnyrch fel Ceblau wedi'u Cymeradwyo gan BASEC.

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o ganllawiau perthnasol eraill fel RSPA (Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau) Safer by Design. Bydd dysgwyr yn adnabod y Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith bod cyfarpar gwaith, gan gynnwys gosodiadau, wedi'i adeiladu yn y fath fodd, neu wedi'i addasu fel ei fod yn addas i'r diben y'i darperir ar ei gyfer. Rhaid i ofynion cysylltiedig sy'n berthnasol fel cyfarpar codi hefyd fodloni gofynion

Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER), rhaid i gyfarpar gwasgedd fodloni'r Rheoliadau Diogelwch Systemau Gwasgedd.

Gellir trafod goblygiadau diffyg ystyriaeth i ddiogelwch defnyddwyr drwy ddefnyddio enghreifftiau fel asbestos a thrychineb Tŵr Grenfell. Bydd dysgwyr yn ymwybodol o gynllun Llywodraeth Cymru i ddiwygio rheoliadau a diogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn, a'r camau gweithredu o ran y 'Map Tuag at Adeiladau Mwy Diogel yng Nghymru'.

Bydd dysgwyr yn deall yr ystyriaethau a'r goblygiadau o wneud newidiadau i adeiladau a chyfrifoldebau'r cwsmer/cleient a'r contractwr a sut mae hyn yn berthnasol i'r Rheoliadau Adeiladu a dogfennau cymeradwy perthnasol a chanllawiau technegol. Bydd dysgwyr yn gwybod bod gofynion perthnasol gwahanol yng Nghymru a Lloegr (e.e. y gofyniad am systemau llethu tân awtomatig yng Nghymru).

Bydd dysgwyr yn deall yr angen am gydsyniad/caniatâd perthnasol i waith gael ei wneud (a allai fod yn ofynnol ar gyfer mân waith ar adeilad rhestredig yng Nghymru), gan gydymffurfio â rheoliadau adeiladu (gan ddilyn dogfennau cymeradwy) a defnyddio deunyddiau priodol. Bydd dysgwyr yn deall ei bod yn ddyletswydd ar y contractwr i wneud gwaith diogel a chyflawni prosiectau diogel ar gyfer y cwsmer/cleient.

Bydd dysgwyr yn deall canlyniadau peidio â gwneud gwaith diogel/cyflawni prosiectau/gwaith anniogel.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd defnyddio deunyddiau, cydrannau a chynnyrch addas sy'n briodol ar gyfer y dasg adeiladu, ac sy'n cynnal diogelwch adeiladau ar gyfer defnyddwyr adeiladau yn y tymor hir.

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd ildio i farn cydweithwyr cymwysedig, pan ac os oes angen, i wirio neu gwblhau gwaith i sicrhau bod diogelwch defnyddwyr/adeiladau yn cael ei gynnal.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth o dechnegau a chyfryngau cyfathrebu a'u haddasrwydd e.e. wyneb yn wyneb, gwrando gweithredol/goddefol, cyfathrebu ysgrifenedig, llafar ac electronig. Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd anghenion unigolion drwy ddefnyddio egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd dysgwyr yn deall sut i gynnal ac annog perthnasoedd gwaith da ffurfiol ac anffurfiol i hyrwyddo ewyllys da ac ymddiriedaeth gyda'r bobl berthnasol. Gall hyn olygu cadw addewidion ac ymgymeriadau, bod yn onest a meithrin perthnasoedd adeiladol, cydweithredu, a chael deialog briodol a da.

Bydd dysgwyr yn adnabod camau model datblygu tîm Tuckman fel:

- ffurfio
- herio
- normaleiddio
- perfformio

Bydd dysgwyr yn deall sut mae trafod cynigion â phobl berthnasol a thrafod awgrymiadau eraill - gan werthfawrogi y dylent annog cwestiynau a cheisiadau am eglurhad a sylwadau.

Bydd dysgwyr yn deall manteision tîm uchel ei berfformiad. Bydd dysgwyr yn deall sut mae datrys gwahaniaethau barn mewn ffyrdd sy'n lleihau tramgwydd ac yn cynnal yr ewyllys da, yr ymddiriedaeth a'r parch, a pham mae hyn yn bwysig.

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall sut mae cadarnhau a chyfleu'r gofynion sy'n berthnasol i'r gwaith. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cadarnhau a chyfleu'r dull gwaith i'r bobl berthnasol e.e. cydweithwyr, cyflogwyr, cwsmeriaid, contractwyr, cyflenwyr cynnyrch a gwasanaethau a'r rheini y mae'r gwaith/prosiect yn effeithio arnynt gyda'r lefel briodol o fanylion a chyda lefel briodol o frys. Gall y manylion hyn gynnwys cynnydd y gwaith, canlyniadau, cyflawniadau, problemau galwedigaethol, cyfleoedd galwedigaethol, gofynion iechyd a diogelwch a chydlynu gwaith (e.e. gyda chrefftau/cydweithwyr eraill). Bydd dysgwyr yn deall manteision gofal cwsmer da i gwsmeriaid presennol ac i gwsmeriaid posibl yn y dyfodol (fel atgyfeiriadau, sicrhau bod cwsmeriaid yn dod yn ôl atynt, adborth da, cwsmeriaid bodlon, mwy o gyfleoedd refeniw).

## Uned 303: Cynllunio a Gwerthuso Gwaith yn y Sector Adeiladu yng Nghymru

Oriau Dysgu dan 35  
Arweiniad (GLH):

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn rhoi'r cymwyseddau i'r dysgwr ynghylch sut mae cynllunio a gwerthuso gwaith yn ei grefft. Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio gwaith i sicrhau ei fod yn cael ei wneud yn ddiogel ac yn unol ag unrhyw safonau perthnasol yn y diwydiant; meini prawf derbyn a llwyddiant perthnasol.

Bydd dysgwyr yn gallu trefnu adnoddau a chynllunio sut mae defnyddio'r adnoddau hyn a'u hamser. Bydd dysgwyr yn trefnu eu gweithgareddau gwaith eu hunain, gan ddelio â phroblemau nodweddiadol sy'n codi yn eu gwaith, a gofyn am gyngor gan eraill os bydd angen. Bydd dysgwyr yn gallu cyfleu'r gofynion gwaith i gwsmeriaid, cydweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd a chrefftau eraill.

Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso eu gwaith gorffenedig a pha mor effeithiol oeddent yn y camau cynllunio a pherfformio; gan nodi cryfderau a gwendidau a defnyddio ymarfer myfyriol i hwyluso gwelliant parhaus.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- cynllunio'r gwaith sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg/tasgau
- gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddiant

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Sut ydw i'n sicrhau nad oes gen i lawer o wastraff wrth adeiladu tŷ?
- Ble alla i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion technegol a deunyddiau?
- Pa ffactorau y mae angen i mi eu hystyried wrth werthuso fy mherfformiad?



## Deiliant dysgu

### 1. Cynllunio'r gwaith sy'n ofynnol i gwblhau'r dasg/tasgau

#### Meini Prawf

- 1.1 Trefnu'r adnoddau sydd eu hangen  
**Ystod:** offer, cyfarpar, deunyddiau
- 1.2 Gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg/tasgau
- 1.3 Gwneud gwaith cynllunio effeithlon  
**Ystod:** amserlenni, trefnu, ansawdd, cost
- 1.4 Rhesymu pam mai'r dull gweithredu sy'n cael ei gynnig yw'r un mwyaf priodol
- 1.5 Cydnabod goblygiadau cost a gwastraff y gwaith  
**Ystod:** ariannol, amgylcheddol
- 1.6 Rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â chwblhau'r dasg a nodi'r camau i'w cymryd i atal risgiau rhag dod yn broblemau  
**Ystod:** natur y dasg, crefftau eraill, adnoddau, yr amgylchedd gwaith, amserlenni, tasgau wrth gefn, addasiadau, mynediad, unrhyw ffactorau allanol perthnasol eraill
- 1.7 Nodi gofynion trosglwyddo'r gwaith  
**Ystod:** gwybodaeth, dogfennau, cyfathrebu

### 2. Gwerthuso'r gwaith sydd wedi'i gwblhau yn erbyn briff y dasg a'r meini prawf llwyddiant

#### Meini Prawf

- 2.1 Adolygu pa mor briodol yw'r meini prawf llwyddiant a osodwyd
- 2.2 Gwerthuso'r defnydd a'r dewis o adnoddau  
**Ystod:** offer, peiriannau, cyfarpar, cynnyrch, deunyddiau
- 2.3 Gwerthuso'r allbwn gorffenedig  
**Ystod:** addas i'r pwrpas, diogel, bodloni briff y dasg/meini prawf derbyn, meini prawf llwyddiant
- 2.4 Gwerthuso ei berfformiad ei hun  
**Ystod:** dulliau, technegau, prosesau, effeithiolrwydd, cryfderau, gwendidau, gwersi a ddysgwyd, gwelliant parhaus
- 2.5 Adolygu cyflawni'r amserlenni
- 2.6 Gwerthuso'r broses drosglwyddo

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 1

**1.1** Bydd dysgwyr yn deall sut i nodi adnoddau i gynhyrchu rhestr adnoddau, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif yn ôl yr angen (fel: dadansoddol (o'r gwaelod i fyny), cymharol (o'r brig i lawr/hanesyddol), a pharametrig). Bydd y dysgwyr yn gwerthfawrogi'r 'twndis amcangyfrif'. Bydd dysgwyr yn adnabod mathau o adnoddau fel: defnyddiau treuliadwy (ailgyflenwadwy), megis deunyddiau ac arian ac adnoddau ailddefnyddiadwy, megis peiriannau, cyfarpar a phobl.

Bydd dysgwyr yn gallu trefnu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dasg/tasgau. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod yr angen am offer, peiriannau, cyfarpar, cynhyrchion a deunyddiau, a chynllunio pryd i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gofyn am eglurhad a chynghor pan nad yw'r adnoddau sydd eu hangen ar gael e.e. gan: y cwsmer/cynrychiolydd y cwsmer, gwybodaeth dechnegol y gwneuthurwr, llenyddiaeth y grefft neu gyfeirio at weithdrefnau'r sefydliad.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gallu nodi meini prawf llwyddiant ar gyfer y dasg, a ddylai gynnwys cerrig milltir llai sy'n nodi gweithgareddau allweddol, defnydd o ddeunyddiau, ac ansawdd y gorffeniad ac ati, wedi'u llunio yng nghyd-destun gofynion cyffredinol y dasg.

**1.3** Bydd dysgwyr yn defnyddio dulliau cynllunio effeithiol i gyfrifo'r amser sydd ei angen i gwblhau tasgau'n llwyddiannus, gan gynnwys rhestr waith, gan amserlennu gweithgareddau tasgau er mwyn galluogi tasgau i gael eu cwblhau i'r safon sy'n ofynnol o fewn yr amserlen a bennwyd. Bydd dysgwyr yn nodi gwahanol fathau o ddibyniaethau rhwng tasgau ac yn ystyried hyn wrth gynllunio camau'r gwaith.

Bydd dysgwyr yn gallu nodi dulliau gweithio a fydd yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn bodloni gofynion prosiect, statudol a chytundebol, gan roi manylion y rhain mewn datganiad dull.

Bydd dysgwyr yn deall yr angen i ystyried cwmpas y gwaith yn ofalus er mwyn osgoi tanamcangyfrif yr hyn sy'n ofynnol.

**1.4** Bydd dysgwyr yn esbonio pam mai'r dull sydd wedi'i gynllunio ar gyfer tasgau yw'r un mwyaf priodol ac y bydd yn eu galluogi i gyflawni'r gofynion o ran ansawdd ac amserlen.

**1.5** Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio'r defnydd o ddulliau gweithio i helpu i sicrhau canlyniadau di-garbon neu garbon isel a bod yn ystyriol o ddefnyddio adnoddau a gwastraff - gan ddangos tystiolaeth o ymwybyddiaeth amgylcheddol ac ariannol. Bydd dysgwyr yn deall dulliau cynllunio, a chynllunio ar gyfer effeithlonrwydd, rheoli costau/arbedion, cyfyngu ar wastraff, cyflawni amserol, a throsglwyddo'n glir.

**1.6** Bydd dysgwyr yn deall yn ystod y cam cynllunio y gellir rhagweld problemau ac felly y gellir eu rheoli'n haws, er enghraifft o fewn asesiad risg (dull rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol). Bydd dysgwyr yn gallu cynllunio camau lliniaru ar gyfer problemau/materion posibl. Cydnabod y gall problemau godi o'r tywydd, natur y dasg, crefftau eraill, argaeledd adnoddau ac ati. Bydd dysgwyr yn gallu asesu'r effeithiau sy'n deillio o newidiadau i'r rhaglen waith ac yn gallu rheoli risgiau (o fewn eu rheolaeth) a fyddai'n effeithio ar gwblhau'r tasgau.

**1.7** Bydd dysgwyr yn gallu cyfleu cynnydd i randdeiliaid perthnasol fel y cyflogwr/goruchwyliwr neu'r cwsmer. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mesurau i reoli mynediad i'r safle (mae Adran 3 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ayb 1974 yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal busnes heb roi aelodau o'r cyhoedd mewn perygl). Mae hyn yn cynnwys y cyhoedd a gweithwyr eraill y gallai'r gwaith effeithio arnynt. Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r ddogfen berthnasol (fel y bo'n briodol) sydd ei hangen ar gyfer trosglwyddo a byddant yn gallu cynllunio'r trosglwyddo, gan ddefnyddio'r wybodaeth, y dogfennau a'r dulliau cyfathrebu (a'r dulliau arddangos) priodol fel sy'n berthnasol i'r gwasanaeth crefft a ddarparwyd.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso a oedd y meini prawf llwyddiant yn cefnogi cyflawni'r dasg yn llwyddiannus ac yn effeithlon, a wnaethant greu unrhyw rwystrau diangen? Bydd dysgwyr yn ystyried a allai meini prawf gwahanol/ychwanegol fod wedi helpu.

**2.2** Bydd y dysgwyr yn gallu gwerthuso eu dewis a'u defnydd o adnoddau, pa mor briodol yw'r dewis o offer, faint o ddeunyddiau a ddewiswyd, pa mor effeithlon yw'r dewis a'r defnydd o ddeunydd. Gwerthuso'r effaith o ran cost a'r amgylchedd.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso ansawdd eu gwaith gorffenedig yn unol â safonau'r diwydiant a diogelwch, i ba raddau y mae'n bodloni briff y dasg a gofynion y cyflogwr/cwsmer.

**2.4** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso'r gosodiad a'r gorffeniad yn gyffredinol, a myfyrio ar yr hyn y gallent fod wedi'i wneud yn wahanol i wella'u hallbwn. Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain a'r meysydd i'w gwella. Bydd dysgwyr yn gallu cyfleu'r gwersi a ddysgwyd ganddynt pan a phryd y bo angen.

**2.5** Bydd dysgwyr yn gallu gwerthuso'r rhesymau dros unrhyw oedi, sut y gellid bod wedi osgoi'r rhain, a sut y gellid eu lliniaru yn y dyfodol. Bydd dysgwyr yn adnabod y rhesymau dros unrhyw arbedion amser, ac yn ystyried sut y gallent gymryd gwersi a ddysgwyd i ystyriaeth wrth gynllunio yn y dyfodol.

**2.6** Bydd dysgwyr yn gwerthuso ansawdd ac eglurder yr wybodaeth a ddarparwyd wrth drosglwyddo, cyflawni pwrpas y trosglwyddo, llwyddiant y dull cyfathrebu a ddewiswyd.

## Uned 304: Cydymffurfio ag iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):	21
----------------------------------	----

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud ag ymwybyddiaeth o ofynion statudol cyfredol perthnasol a chanllawiau swyddogol i gynnwys cyfrifoldebau, i'r hunan ac i eraill, sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle. Mae hefyd yn ymdrin ag ymddygiad personol a diogelwch yn y gweithle yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- derbyn cyfrifoldeb dros bolisiau a gweithdrefnau'r sefydliad a chydymffurfio â hwy er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles
- cydymffurfio â holl drefniadau diogelwch a gweithdrefnau cymeradwy'r sefydliad a'u cefnogi.

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Am ba reoliadau y mae angen i mi wybod?
- Beth mae datganiad dull yn ei ddweud wrthyf?
- A fydd yn rhaid i mi weithio gyda deunyddiau a sylweddau peryglus?
- Sut mae adnabod asbestos?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle

#### Meini Prawf

- 1.1 Beth a pham mae deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles yn berthnasol i'r maes galwedigaethol
- 1.2 Pa hysbysiadau ac arwyddion rhybudd yn ymwneud â deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol a'r cyfarpar cysylltiedig
- 1.3 Sut mae cydymffurfio â mesurau rheoli a nodir drwy asesiadau risg a systemau gweithio diogel
- 1.4 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio **cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch**

### 2. Deall sut mae adnabod peryglon

#### Meini Prawf

- 2.1 Y peryglon sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd gwaith
- 2.2 Sut mae amgylchiadau'n newid yn gallu creu peryglon
- 2.3 Y dull o roi gwybod am beryglon yn y gweithle

### 3. Deall polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad

#### Meini Prawf

- 3.1 Beth yw polisïau a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer iechyd, diogelwch a lles
- 3.2 Sut i gymryd cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles
- 3.3 Sut y gall gweithredoedd ac ymddygiad unigol effeithio ar eraill
- 3.4 Beth yw'r mathau o offer diffodd tân, a sut a pha bryd mae eu defnyddio

### 4. Deall sut mae rhoi trefniadau diogelwch ar waith

#### Meini Prawf

- 4.1 Sut mae trefniadau diogelwch yn cael eu rhoi ar waith yn y gweithle

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 1

- 1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gofynion statudol a/neu ganllawiau swyddogol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles ar gyfer yr alwedigaeth a'r man gweithio.
- 1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol hysbysiadau ac arwyddion rhybudd sy'n berthnasol i'r maes galwedigaethol.
- 1.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithio'n ddiogel ac yn unol â mesurau rheoli a nodwyd drwy asesiadau risg a systemau gweithio diogel.
- 1.4 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch priodol yn ôl yr egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, gwahanol sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol, gan gynnwys;
  - mesurau diogelu cyfunol
  - systemau awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth (LEV)
  - cyfarpar diogelu personol (PPE)
  - cyfarpar diogelu anadlol (RPE)

### Deilliant 2

- 2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â'r maes galwedigaethol, gan gynnwys peryglon mewn perthynas ag; adnoddau, y gweithle, yr amgylchedd, sylweddau, asbestos, silica, cyfarpar, rhwystrau, storio, gwasanaethau a gweithgareddau gwaith.
- 2.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod y risgiau cyffredin presennol o ran diogelwch a'r risgiau cyffredin i iechyd.
- 2.3 Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau cofnodi a gofynion statudol y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am beryglon yn y gweithle.

### Deilliant 3

- 3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithio'n ddiogel yn unol â gofynion y sefydliad, gan gynnwys; derbyn neu ddod o hyd i wybodaeth, cofnodi, rhoi'r gorau i weithio, gwagio'r safle, risgiau tân a gweithdrefnau gadael diogel, ymgynghori ac adborth, cynefino, sgwrs blwch offer ac arwyddion.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae delio â damweiniau ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r math o waith sy'n cael ei wneud a'r amgylchedd gwaith.

- 3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cymryd cyfrifoldeb dros iechyd, diogelwch a lles, yn unol â'u hyfforddiant a'u sgiliau.
- 3.3 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod ymddygiad sy'n effeithio ar iechyd, diogelwch a lles ac yn gwybod pryd i roi'r gorau i weithio yn wyneb perygl difrifol a pherygl sydd ar fin digwydd.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut i gyfrannu at drafodaethau a rhoi adborth gwerthfawr. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae rhoi gwybod am amgylchiadau a digwyddiadau sydd wedi newid yn y gweithle gan lynu wrth ofynion amgylcheddol y gweithle.

**3.4** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gwahanol offer diffodd tân a'u defnydd, gan gynnwys; dŵr, CO2, ewyn, powdr, hylif anweddu

#### **Deilliant 4**

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau'r sefydliad sy'n ymwneud â'r gweithle, y cyhoedd, staff y safle ac adnoddau, a sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith yn y gweithle.

## Deilliant dysgu

### 5. Derbyn cyfrifoldeb dros bolisïau a gweithdrefnau'r sefydliad a chydymffurfio â hwy er mwyn cyfrannu at iechyd, diogelwch a lles

#### Meini Prawf

**5.1** Arddangos ymddygiad personol sy'n dangos cyfrifoldeb gweithredol dros iechyd, diogelwch a lles cyffredinol yn y gweithle

**5.2** Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad sy'n ymwneud â'r canlynol;

- ystyried pobl eraill,
- dehongli cyfarwyddiadau a roddwyd er mwyn cynnal systemau gweithio diogel,
- cyfrannu at drafodaethau (cynnig a rhoi adborth),
- cynnal arferion gweithio o safon,
- cyfrannu at gynnal cyfleusterau lles yn y gweithle,
- storio a defnyddio cyfarpar a ddarperir i gadw pobl yn ddiogel,
- cael gwared ar wastraff a/neu eitemau traul

### 6. Cydymffurfio â holl drefniadau diogelwch a gweithdrefnau cymeradwy'r sefydliad a'u cefnogi

#### Meini Prawf

**6.1** Yn unol â gofynion sefydliadol o ran:

- delio â damweiniau ac argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r math o waith sy'n cael ei wneud a'r amgylchedd gwaith
- dulliau o dderbyn neu ddod o hyd i wybodaeth
- adrodd
- rhoi'r gorau i weithio
- gwagio
- risgiau tân a gweithdrefnau gadael diogel
- ymgynghori ac adborth



## Uned 305: Cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol

Oriau Dysgu dan  
Arweiniad (GLH):

14

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chyfathrebu cynhyrchiol â rheolwyr llinell, cydweithwyr a chwsmeriaid yn ogystal â dehongli gwybodaeth, cynllunio a chynnal arferion gwaith cynhyrchiol a gweithio gydag eraill neu fel unigolyn, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- cyfathrebu gydag eraill
- dilyn gweithdrefnau'r sefydliad i gynllunio trefn y gwaith er mwyn cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chadw cofnodion
- cynnal perthynas waith dda

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pa waith papur fydd yn rhaid i mi weithio ag ef ar y safle?
- Beth mae cydraddoldeb ac amrywiaeth (E&D) yn ei olygu mewn gwirionedd?
- A fydd yn rhaid i mi fynychu cyfarfodydd a sesiynau briffio ar ôl fy sesiwn cynefino?
- Beth yw gweithdrefnau'r sefydliad?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut i gyfathrebu gydag eraill

#### Meini Prawf

1.1 sut mae defnyddio dulliau cyfathrebu gyda staff eraill yn y gweithle a gyda chwsmeriaid

1.2 sut i gyfathrebu i sicrhau bod y gwaith yn gynhyrchiol

### 2. Deall sut mae dilyn gweithdrefnau

#### Meini Prawf

2.1 sut mae gweithdrefnau'r sefydliad yn cael eu defnyddio i gynllunio a chyflawni gwaith cynhyrchiol

2.2 sut mae cadw dogfennau yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad

2.3 sut mae cyfrannu at ganlyniadau di-garbon/carbon isel yn yr amgylchedd adeiledig

### 3. Deall sut mae cynnal perthynas waith dda

#### Meini Prawf

3.1 sut mae cynnal perthynas waith dda

3.2 sut mae cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 1

1.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu lle bo hynny'n briodol, gan gynnwys gwrando, ysgrifennu, llafar, gweledol ac electronig.

1.2 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio gwahanol ddulliau cyfathrebu i sicrhau bod gwybodaeth yn glir a bod y gwaith yn gynhyrchiol.

### Deilliant 2

2.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae defnyddio adnoddau'n briodol ar gyfer eu gofynion gwaith eu hunain a gofynion gwaith pobl eraill. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwaith priodol yn cael ei ddyrannu i weithwyr a sut y caiff trefn y gwaith ei drefnu.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal dogfennau'n briodol, gan gynnwys; cardiau tasg, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafenni amser.

**2.3** Bydd dysgwyr hefyd yn gwybod sut mae cyfrannu at leihau allyriadau carbon yn yr amgylchedd adeiledig.

### **Deilliant 3**

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae meithrin a chynnal perthynas dda gydag eraill, gan gynnwys; unigolion, grwpiau yn y gweithle (y cwsmer a'r gweithiwr, y gweithiwr a rheolwyr llinell, ei alwedigaeth ei hun a galwedigaethau cysylltiedig).

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ystyried anghenion unigolion drwy gymhwysu egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Deilliant dysgu

### 4. Cyfathrebu gydag eraill

#### Meini Prawf

4.1 Cyfathrebu â rheolwyr llinell, cydweithwyr neu gwsmeriaid i sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud mewn ffordd gynhyrchiol

4.2 Parchu anghenion pobl eraill wrth gyfathrebu

### 5. Dilyn gweithdrefnau'r sefydliad i gynllunio trefn y gwaith er mwyn cydymffurfio ag arferion gwaith cynhyrchiol a chadw cofnodion

#### Meini Prawf

5.1 Dehongli gweithdrefnau a defnyddio adnoddau i gynllunio trefn y gwaith, er mwyn iddo gael ei gwblhau mewn ffordd gynhyrchiol

5.2 Cwblhau dogfennau fel sy'n ofynnol gan y sefydliad

### 6. Cynnal perthynas waith dda

#### Meini Prawf

6.1 Gweithio'n gynhyrchiol gyda rheolwyr llinell, cydweithwyr, cwsmeriaid neu pobl eraill

6.2 Cymhwyso egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth

## Uned 306: Symud, trin neu storio adnoddau

---

<b>Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):</b>	30
---	----

---

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth a mabwysiadu arferion gweithio diogel ac iach, gan gynnwys dewis cymhorthion neu offer i symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol. Mae hefyd yn cynnwys symud, trin a storio adnoddau galwedigaethol i gynnal cyflwr defnyddiol, yng nghyd-destun eich galwedigaeth a'ch amgylchedd gwaith.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn gallu:

- deall sut mae dehongli gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser
- cydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pa mor drwm fydd gwrthrych y bydd disgwyl i mi ei gario?
- Fydda i'n dysgu sut mae defnyddio'r technegau codi cywir?
- Ydw i'n gyfrifol am ddiogelwch safle?
- Beth mae Cyntaf i Mewn Cyntaf Allan (FIFO) yn ei olygu?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall sut mae dehongli gwybodaeth

#### Meini Prawf

- 1.1 Y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd gan y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y mae'r rhain yn cael eu defnyddio
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Sut mae cael gwybodaeth i ddefnyddio a storio cymhorthion a chyfarpar codi

### 2. Deall arferion gwaith diogel

#### Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae angen i weithredwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio
- 2.2 Y mathau o offer diffodd tân a sut a pha bryd mae defnyddio'r rhain
- 2.3 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.4 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.5 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad
- 2.6 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch

### 3. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

- 3.1 Nodweddion, ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, cyfyngiadau a diffygion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a sut mae cywiro diffygion
- 3.2 Sut mae defnyddio'r adnoddau a sut mae rhoi gwybod am unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r adnoddau

**3.3** Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau, pam maen nhw wedi cael eu llunio a sut mae eu defnyddio

**3.4** Y peryglon sy'n gysylltiedig â'r adnoddau a'r dulliau gweithio a sut mae goresgyn y rhain

#### **4. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod**

##### **Meini Prawf**

**4.1** Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu

**4.2** Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

#### **5. Deall sut i gydymffurfio â gwybodaeth am adnoddau galwedigaethol**

##### **Meini Prawf**

**5.1** Sut mae dulliau gweithio, er mwyn bodloni'r fanyleb, yn cael eu cyflawni a sut mae rhoi gwybod am broblemau

#### **6. Deall sut i weithio i derfynau amser**

##### **Meini Prawf**

**6.1** Beth yw'r rhaglen ar gyfer gwneud y gwaith o fewn yr amser a amcangyfrifwyd ac a neilltuwyd a pham y dylid cadw at derfynau amser

#### **Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)**

##### **Deilliant 1**

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau sefydliadol sydd ar waith i roi gwybod am broblemau gyda gwybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u datrys. Bydd dysgwyr yn gwybod sut maen nhw'n cael eu rhoi ar waith yn y sefydliad.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol fathau o wybodaeth sydd ar gael a sut mae modd eu cyflwyno a'u dehongli. I gynnwys -

- technegol – e.e. taflenni data diogelwch
- cynnyrch – e.e. llenyddiaeth y gwneuthurwyr
- rheoleiddiol – e.e. iechyd a diogelwch (Datganiadau Dull Asesu Risg - RAMS)
- dogfennau ysgrifenedig – e.e. nodiadau danfon, ffurflenni archebu

- dulliau cyflwyno – llafar (e.e. cyfarwyddiadau llafar), ysgrifenedig (e.e. manyleb, taflen waith), cyflwyniad graffigol (e.e. rhaglen waith)

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau sefydliadol sydd ar waith i ddatrys problemau gyda gwybodaeth ac yn gwybod pwysigrwydd eu dilyn yn gywir.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dod o hyd i wybodaeth i ddefnyddio a storio cymhorthion a chyfarpar codi yn ddiogel.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall eu cyfrifoldebau o ran damweiniau posibl a pheryglon i iechyd wrth weithio gyda'r canlynol; offer a chyfarpar, deunyddiau a sylweddau, symud a storio deunyddiau ac wrth godi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y cyfarpar diogelu personol cywir a phwysigrwydd sesiynau cynefino a hyfforddiant.

Dylai dysgwyr wybod sut mae dehongli adroddiadau RAMS, COSHH a thafenni data lechyd a Diogelwch mewn perthynas â rhoi gwybod am beryglon newydd/damweiniau fu bron â digwydd a sut mae defnyddio technegau priodol (yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol gyfredol);

- *yn y gweithle* – e.e. mynedfeydd, allanfeydd a rhodfeydd diogel, symud cyfarpar, cloddiadau, gweithio ar ei ben ei hun
- *mewn manau cyfyng* – e.e. cynlluniau argyfwng, Offer Amddiffynnol Anadlol (RPE), Awyru Lleol sy'n Gwacau Mygdarth (LEV)
- *o dan lefel y ddaear* – e.e. allanfeydd diogel, gwasanaethau, llifogydd/dŵr daear
- *ar uchder* – e.e. diogelu rhag cwmpo, harneisiau diogelwch, cyfarpar mynediad cywir

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol offer diffodd tân sydd ar gael a sut i'w defnyddio. Bydd dysgwyr yn gwybod y dosbarthiadau canlynol;

- dŵr – coch/Dosbarth A, deunyddiau carbonaidd
- CO<sub>2</sub> – du/Dosbarth B ac E, trydanol a hylifau fflamadwy
- ewyn – hufen/dosbarth A a B, deunyddiau carbonaidd a hylifau fflamadwy
- powdr – glas, pob dosbarth o dân

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw pwysau symud offer diffodd tân a'r technegau trin/gweithredu ar gyfer diogelwch. Bydd dysgwyr yn gwybod lleoliad yr offer diffodd tân mewn perthynas â deunyddiau sydd wedi'u storio.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu cyfrifoldeb mewn ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad y sefydliad a sgiliau personol wrth ymdrin â'r canlynol;

- tanau – e.e. defnyddio offer diffodd tân ar gyfer gwahanol fathau o dân, gwagio, atal
- gollyngiadau – e.e. atal, pecynnau gollyngiadau, arwyddion, cau'r ardal



- anafiadau – e.e. swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf, adrodd ar ddamweiniau
- argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol - e.e. atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, adrodd

**2.4** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol weithdrefnau diogelwch, gan gynnwys;

- safle – e.e. ffensys/palisau dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle – e.e. agor/cloi,
- cwmni – e.e. mewngofnodi, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr – e.e. diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

**2.5** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau adrodd am ddamweiniau ac yn gwybod beth yw eu cyfrifoldeb eu hunain o ran adrodd. Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am adrodd.

**2.6** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch priodol yn ôl yr egwyddorion diogelu ar gyfer defnydd galwedigaethol, mathau a phwrpas pob math, yng nghyswllt gwahanol sefyllfaoedd gwaith a'r amgylchedd gwaith cyffredinol, gan gynnwys;

- Mesurau diogelu cyfunol
- Cyfarpar diogelu personol (PPE)
- Cyfarpar diogelu wrth anadlu (RPE)
- Systemau awyru lleol sy'n gwacáu mygdarth (LEV)

### Deilliant 3

**3.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw mathau, nifer, ansawdd, meintiau a chynaliadwyedd adnoddau safonol a/neu arbenigol. Bydd dysgwyr yn gwybod am broblemau, namau neu ddiffygion posibl a sut mae delio â nhw.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddewis adnoddau ar gyfer gwahanol dasgau ac ar gyfer atal peryglon sy'n gysylltiedig â'r gwaith, gan gynnwys;

- adnoddau galwedigaethol – offer, deunyddiau a chyfarpar sy'n gysylltiedig â gwaith/crefft
- cymhorthion codi a thrin – e.e. berfa, tryc paledi, fforch godi, troli cario sachau
- cynhwysyddion – e.e. cynhwysydd storio, cynhwysydd fflamadwy
- systemau gosod, dal a sicrhau – e.e. rhaffau a rhwymynnau, craffrwympau, strapiau cliciedu
- cylchdroi stoc darfodus, FIFO (cyntaf i mewn cyntaf allan).

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu hawdurdod eu hunain i ddatrys problemau neu sut i roi gwybod i'r goruchwyliwr priodol a gwneud cofnod priodol o'r broblem. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau adrodd y sefydliad, gan gynnwys y person cywir i'w hysbysu ac yn y fformat cywir i gynnwys cyfathrebu ar lafar neu'n ysgrifenedig.

**3.3** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad o ran dewis adnoddau sy'n berthnasol i'r dasg. Bydd dysgwyr yn gwybod pam fod y gweithdrefnau ar waith a sut maent yn cael eu defnyddio.

**3.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i adnabod peryglon o'r wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys;

- dull gweithio – e.e. RAMS, sgysiau blwch offer, adrodd ar beryglon
- gwybodaeth dechnegol gwneuthurwyr – e.e. taflenni data iechyd a diogelwch
- rheoliadau statudol – e.e. COSHH, Gweithrediadau Codi a Chario, Rheoliadau Gweithio ar Uchder (WAHR), Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi (LOLER)
- canllawiau swyddogol – e.e. Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)

#### Deilliant 4

**4.1** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau cyffredinol yn y gweithle, galwedigaethau eraill a thywydd garw fel storio cywir, danfon wedi'i drefnu yn unol â'r rhaglen waith ac amddiffyn yr ardal o amgylch.

**4.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys sgiopiau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

#### Deilliant 5

**5.1** Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau ac arferion gwaith diogel, gan gynnwys;

- dull ac ardal y gwaith – gweithdrefnau codi cywir ar gyfer gwahanol ddeunyddiau (pwysau, nifer, siâp), llwybrau ar gyfer symud deunyddiau'n ddiogel, cadw allanfeydd yn lân ac yn glir,
- deunyddiau a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer symud, trin a storio adnoddau galwedigaethol – e.e. technegau codi a chario cywir, gwahanol gymhorthion codi
- anghenion galwedigaethau eraill sy'n gysylltiedig â'r adnoddau e.e. storio adnoddau a gwerthfawrogi meysydd gwaith/anghenion crefftiau eraill

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys rhoi gwybod i'r goruchwyliwr/rheolwr e.e. oedi annisgwyl, tywydd, problemau gyda danfoniadau. Bydd dysgwyr yn gwybod am y problemau sy'n gallu effeithio ar y rhaglen, gan gynnwys;

- problemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – e.e. camglywed cyfarwyddiadau, camddehongli gwybodaeth gwneuthurwyr, gwybodaeth anghywir
- problemau sy'n deillio o adnoddau – e.e. anaddas, wedi'u difrodi, anghywir, nifer

- problemau gyda dulliau gweithio – e.e. storio anghywir, camau anghywir (e.e. symud a thrin anghywir), defnyddio offer yn anghywir

## Deilliant 6

**6.1** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r mathau o raglenni, gan gynnwys;

- siartiau cynnydd ac amserlenni – e.e. rhaglenni gwaith, siartiau bar, siartiau Gantt

Bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd gweithio i derfynau amser ac amseroedd penodol, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar rannau eraill o'r rhaglen.

## Deilliant dysgu

- 7. Cydymffurfio â'r wybodaeth am adnoddau galwedigaethol a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r cyfarwyddiadau gofynnol**

## Meini Prawf

- 7.1** Sgiliau gwaith i symud, lleoli, storio, cael a/neu ddefnyddio cymhorthion codi a thechnegau codi cinetig
- 7.2** Symud, trin neu storio adnoddau galwedigaethol i fodloni gwybodaeth am gynnyrch a gofynion sefydliadol sy'n ymwneud ag o leiaf dri o'r canlynol; deunydd ar ffurf dalennau, deunydd rhydd, deunydd mewn bagiau neu wedi'i lapio, deunydd bregus, offer a chyfarpar, cydrannau, hylifau

## Uned 235: Gwybodaeth graidd am doi

Oriau Dysgu dan 50  
Arweiniad (GLH):

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymdrin â'r wybodaeth gyffredinol sydd ei hangen ar gyfer y grefft hon.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth
- deall arferion gweithio diogel
- deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod
- deall gweithio i derfynau amser

Mae cynnwys yr uned hon wedi cael ei gyflwyno mewn ffordd generig gan ei fod yn gyson drwy lawer o'r unedau sgiliau yn y cymhwyster hwn. Dylid addysgu'r cynnwys, a bydd yn cael ei asesu'n gyffredinol ac yng nghyd-destun yr unedau sgiliau canlynol (lle bo hynny'n briodol);

- Gosod is-haen, estyll stribed a chydrannau toi
- Gosod teils to lapiad sengl i fesur amrywiadwy
- Gosod gorchuddion to teils plaen
- Gosod seliau hindreuliad sydd wedi cael eu ffurfio ymlaen llaw ar doeau
- Gosod llechi to naturiol maint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to
- Tynnu ac adfer gorchuddion to

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pam mae cynefino â safleoedd yn bwysig?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng cerdyn tasg a thaflen amser?
- Pwy yw Cadw, a beth maen nhw'n wneud?

## Deiliant dysgu

### 1. Deall sut mae dehongli a chynnal gwybodaeth

#### Meini Prawf

- 1.1 Y gweithdrefnau sefydliadol a ddatblygwyd gan y sefydliad ar gyfer rhoi gwybod am wybodaeth amhriodol ac adnoddau anaddas a'u cywiro, a sut y mae'r rhain yn cael eu defnyddio
- 1.2 Y mathau o wybodaeth, eu ffynhonnell a sut maen nhw'n cael eu dehongli
- 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad i ddatrys problemau gyda'r wybodaeth a pham ei bod yn bwysig eu bod yn cael eu dilyn
- 1.4 Pwysigrwydd cadw dogfennau

### 2. Deall arferion gweithio diogel

#### Meini Prawf

- 2.1 Lefel y ddealltwriaeth y mae angen i weithredwyr ei chael o wybodaeth am ddeddfwriaeth a chanllawiau swyddogol perthnasol cyfredol a sut mae eu defnyddio
- 2.2 Sut y dylid ymateb i argyfyngau a phwy ddylai ymateb
- 2.3 Gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer offer, cyfarpar ac eiddo personol
- 2.4 Beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer adrodd am ddamweiniau a phwy sy'n gyfrifol am wneud yr adroddiad
- 2.5 Pam, pryd a sut y dylid defnyddio cyfarpar rheoli iechyd a diogelwch
- 2.6 Sut mae cydymffurfio ag arferion gweithio sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni deddfwriaeth a chanllawiau swyddogol cyfredol

### 3. Deall sut mae lleihau'r risg o ddifrod

#### Meini Prawf

- 3.1 Sut mae diogelu gwaith rhag difrod a phwrpas diogelu
- 3.2 Pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel a sut y gwneir hynny

## 4. Deall gweithio i derfynau amser

### Meini Prawf

**4.1** Sut mae gwaith yn cael ei wneud i fodloni'r rhaglen yn yr amser a drefnwyd a phwysigrwydd terfynau amser

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

##### Deilliant 1

- 1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o weithdrefnau sefydliadol a'u nodweddion a'u defnyddiau, gan gynnwys cyfleu problemau ar lafar, cadwyn awdurdod, sgysiaid blwch offer, cynefino â'r safle.
- 1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw nodweddion a ffyrdd o ddefnyddio lluniadau a chynlluniau, manylebau, rhestrau, datganiadau dull, asesiadau risg, gwybodaeth gwneuthurwyr, cyfarwyddiadau ar lafar ac yn ysgrifenedig, a rheoliadau adeiladu, ac yn gwybod sut maent yn cael eu rhoi ar waith.
- 1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o wybodaeth amhriodol – gan gynnwys camglywed cyfarwyddiadau, gwybodaeth anghywir, camddehongli datganiad dull, gwybodaeth anghywir yn cael ei rhoi. Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o broblemau sy'n codi o adnoddau gan gynnwys deunyddiau anaddas a thywydd garw.
- 1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cynnal dogfennau, gan gynnwys cardiau tasgau, taflenni gwaith, rhestrau deunyddiau/adnoddau a thafleuni amser.

##### Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod am egwyddorion y darnau canlynol o ddeddfwriaeth; Rheoliadau adeiladu; rheoliadau Gweithio ar Uchder; Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith; PUWER; ACOP; RIDDOR; CDM; COSHH; PPE; LOLER; rheoliadau Codi a Chario â Llaw; rheoliadau Sŵn yn y Gwaith.

Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diben pob deddfwriaeth, sut mae'n cael ei defnyddio mewn diwydiant a chanlyniadau peidio â chydymffurfio. Bydd dysgwyr yn deall rolau awdurdodau lleol o ran cynllunio a Rheoli Adeiladu a chyda strwythurau treftadaeth gan gynnwys ymgynghori â Cadw.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ymateb i sefyllfaoedd yn unol ag awdurdodiad sefydliadol a sgiliau personol wrth ymdrin â thanau, gollyngiadau, anafiadau ac argyfyngau.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o offer diffodd tân a sut a phryd y cânt eu defnyddio ar gyfer gwahanol ddsbarthiadau o dân. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw eu

rôl a'u cyfrifoldeb o ran gwagio safle, atal (dŵr, CO2, ewyn, powdr), y triogl tân a phwyntiau ymgynnull.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o ollyngiadau, sut mae eu hatal a sut mae eu trwsio. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer pecynnau gollyngiadau, arwyddion a sut mae cau yr ardal.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o anafiadau a chyfrifoldebau cyffredin gan gynnwys swyddog cymorth cyntaf, pecyn cymorth cyntaf ac adrodd am ddamweiniau ar gyfer argyfyngau sy'n ymwneud â gweithgareddau galwedigaethol, gan gynnwys atal, gweithdrefnau brys, gwasanaethau brys, gweithdrefnau adrodd, mynedfeydd ac allanfeydd ar gyfer cerbydau argyfwng.

**2.3** Bydd dysgwyr yn gwybod gweithdrefnau diogelwch y sefydliad ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys;

- safle – gan gynnwys ffensys/palisau dros dro, swyddogion diogelwch, gwyliadwriaeth
- gweithle - gan gynnwys agor a chloi
- cwmni – gan gynnwys mewngofnodi, gweithdrefnau awdurdodi ID
- gweithiwr – gan gynnwys diogelwch offer, deunyddiau, cyfarpar a cherbydau, eiddo personol

Bydd dysgwyr yn deall gweithdrefnau diogelwch mewn annedd ddomestig o'u cymharu ag ar safle.

**2.4** Bydd dysgwyr yn gwybod pwy sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni damweiniau ac yn gallu nodi swyddog cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr hefyd yn deall y gyfraith sy'n ymwneud â nifer y bobl y mae angen eu hyfforddi'n briodol ar gyfer cymorth cyntaf. Bydd dysgwyr yn deall y rolau a'r cyfrifoldebau mewn gwahanol safleoedd, gan gynnwys mewn cartref domestig. Bydd dysgwyr yn deall sut mae adrodd i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) a RIDDOR ar gyfer digwyddiadau perthnasol. Bydd dysgwyr yn gwybod sut i ddefnyddio'r llyfr cofnodi ar gyfer mân ddamweiniau a sut i gofnodi damweiniau fu bron â digwydd, gan gynnwys y gweithdrefnau adolygu ac ail-werthuso sydd ar waith.

**2.5** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae dewis, defnyddio a chynnal a chadw cyfarpar diogelu personol, RPE, LEV yn gywir, gan gynnwys gwybodaeth am y canlynol; sbectolau effaith uchel, gogls, het galed, dillad llachar, amddiffynwyr clustiau, esgidiau diogelwch, masgiau llwch (gan gynnwys profion ffitio'r wyneb), harneisiau diogelwch, menig priodol, sachau atal cwmpo, matiau cwmpo, rheiliau a rhwydi diogelu sgaffaldiau, lloriau ffug, hyfforddiant dryll hoelion ffics cyntaf, hyfforddiant dryll hoelion ail ffics.

**2.6** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae cydymffurfio ag arferion gwaith sy'n amgylcheddol gyfrifol er mwyn bodloni'r ddeddfwriaeth gyfredol a chanllawiau swyddogol, gan



gynnwys; cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP), ailgylchu, aildddefnyddio a gwastraff wedi'i ddioli.

### Deilliant 3

3.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae diogelu gwaith rhag difrod o weithgareddau gwaith cyffredinol ac o alwedigaethau ac amodau tywydd eraill (domestig yn ogystal ag ar safle). Bydd dysgwyr yn deall y defnydd o orchudd dros dro, gan newid trefn y gwaith er mwyn diogelu'r gwaith yn well, gofalu am y gwaith a rhoi sylw i fanylion wrth osod, defnyddio dalenni llwch a diogelwyr deunyddiau.

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae storio deunyddiau'n gywir cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith.

3.2 Bydd dysgwyr yn gwybod pam y dylid gwaredu gwastraff yn ddiogel ac yn gyfrifol, gan ddilyn gweithdrefnau'r sefydliad, gwybodaeth gwneuthurwyr, rheoliadau statudol a chanllawiau swyddogol yn unol â chyfrifoldebau amgylcheddol. Bydd dysgwyr yn gwybod am y gwahanol ddulliau gwaredu gan gynnwys; sgiplau dynodedig, ailgylchu, didoli gwastraff, man casglu gwastraff lleol, biodanwydd.

### Deilliant 4

4.1 Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gweithgareddau gwaith, deunyddiau a llafur yn cael eu dyrannu i fodloni'r amserlen sy'n ofynnol o fewn y rhaglen a phwysigrwydd cadw at derfynau amser.

Bydd dysgwyr yn gwybod am y mathau o dargedau cynhyrchiant ac amserlenni, sut mae amseroedd yn cael eu hamcangyfrif a'r amgylchiadau a fydd yn effeithio ar y rhaglen waith, gan gynnwys; y tywydd, faint o lafur sydd ar gael, effaith ddilynol trin a storio gwael yn achosi difrod i ddeunyddiau, cymal cosb, ffioedd cadw, enw da, a'r goblygiadau ar grefftiau eraill.

## Uned 236: Gosod is-haen, estyll sribed a chydrannau toi

---

<b>Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):</b>	40
---	----

---

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a pharatoi a gosod estyll sribed, is-haen, estyll croes, haenau gwaelodol, systemau awyru yn y bonddo, deunydd cynnal yr is-haen a rhwystrau tân ar gyfer gwaith toi newydd a/neu waith ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pam mae hi'n bwysig awyru gofod yn y to?
- Ble fyddai to cynnes yn cael ei inswleiddio?
- Beth yw ystyr 'hydraidd i anwedd'?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

##### 1.1 Nodweddion yr adnoddau

**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

##### 1.2 Defnyddio adnoddau

**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

##### 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

##### 1.4 Peryglon

**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

#### Meini Prawf

##### 2.1 Dulliau gweithio

**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

##### 2.2 Offer a chyfarpar

**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 1

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer gosod is-haenau, estyll strided a chydannau toi, gan gynnwys ansawdd, defnydd, cynaliadwyedd, cyfyngiadau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio. Bydd adnoddau a chydannau'n cynnwys;

- is-haenau anadladwy a rhai heb fod yn analadwy
- meintiau estyll strided
- awyriad bondoeau
- deunydd cynnal y bondo

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pa adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod is-haenau, estyll strided a chydannau toi i; ardaloedd cyffredinol, bondoeau, ategweithiau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, rychau, cribau,

arisiau a chafnau, ac yn gwybod am weithdrefnau riportio ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod am y gweithdrefnau, y rhesymeg, y defnydd a'r dewis o adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod is-haenau, estyll sribed a chydannau toi, a'r cyfarpar sy'n ymwneud â mathau, niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol.

**1.4** Bydd dysgwyr yn adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â gosod ishaenau, estyll sribed a chydannau toi, ac yn gwybod beth yw cyfrifoldebau'r gweithiwr o ran:

- damweiniau posibl
- peryglon iechyd wrth weithio yn y gweithle
- gweithio yn rhywle uchel
- gydag offer a chyfarpar
- gyda deunyddiau a sylweddau
- gyda symud/storio deunyddiau
- drwy godi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol
- gweithdrefnau ar gyfer riportio peryglon.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall arferion, gweithdrefnau a sgiliau gwaith diogel ac iach mewn perthynas â'r dull/maes gwaith a'r deunyddiau a ddefnyddir i wneud y canlynol:

- asesu addasrwydd yr is-strwythur
- adnabod a riportio namau gyda'r is-strwythur a rhyngwynebau'r to
- sefydlu pwyntiau sefydlog a phennu'r medrydd i osod safleoedd estyll
- torri is-haenau, estyll sribed a chydannau toi i'r maint a'r siâp angenrheidiol
- gosod is-haenau, estyll sribed ac estyll croes, clipiau ymyl ac haearnau arisiau
- gosod a phennu bargod ar gyfer systemau gosod gwlyb a/neu sych
- gosod haen waelodol ar gyfer ymylon sydd wedi'u plannu a/neu systemau gosod sych
- gosod is-haenau ar agoriadau (goleuadau, ffenestri to) a threiddiadau
- gosod deunyddiau cynnal is-haenau a systemau awyru bondoeau
- ffurfio toriadau tân

Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod pan fydd angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol a riportio yn unol â hynny. Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod gofynion penodol ar gyfer strwythurau o ddiddordeb arbennig, adeiladau traddodiadol (cyn 1919) ac arwyddocâd hanesyddol.

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen i osod is-haenau, estyll sribed a chydannau toi. Offer a chyfarpar i'w cynnwys:

- pren/tâp mesur
- cyllell drimio

- morthwylion
- llif fach
- offer pŵer neu dorri â llaw (driliau, sgriwdreifer)

Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn gwybod am ddiffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

## Deilliant dysgu

3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol

## Meini Prawf

### 3.1 Dangos sgiliau gwaith

**Ystod:** gofynion cyfarpar diogelu personol, mesur, gosod allan, marcio, lleoli a gosod

### 3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod deunyddiau a chhydrannau

**Ystod:** bondo, bargodion, arisiau, cribau, cafnau, pentanau, agoriadau, treiddiadau, mannau cyffredinol, ac arwynebau fertigol yn unol â'r cyfarwyddiadau gweithio a roddir sy'n ymwneud â'r canlynol: is-haen, estyll sribed, estyll croes, haenau gwaelodol, systemau awyru, deunyddiau cynnal is-haen, rhwystrau tân

### 3.3 Gosod estyll sribed allan i'r pwyntiau datwm a mesur

**Ystod:** Gosod datwm bondo, cyfrifo trwch estyll sribed, marcio'r llinellau pwyth drwy'r mur ar gyfer bargod cyfartal

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol, gan fesur a thorri ishaenau, estyll sribed a theils â llaw.

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer teilsio lapiad sengl yn ddiogel, gan gynnwys ysgolion a byrddau cropian. Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad. Bydd dysgwyr yn gallu mesur y to, torri, gosod is-haen, cyfrifo datwm a thrwch teils drwy fesur hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Bydd dysgwyr yn gallu gosod teils a chhydrannau lapiad sengl ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd i fannau cyffredinol, bondo, pentanau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, cribau, arisiau a chafnau.

3.3 Bydd dysgwyr yn gallu gosod astell datwm ar gyfer ymestyniad bondo cywir, cyfrifo datwm a mesuriad cyfartal drwy fesur hyd y ceibren ar wahanol bwyntiau i bennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau, marcio llinellau pwyth drwy'r mur i roi bargod cyfartal ar yr ymyl.

## Uned 237: Gosod teils to lapiad sengl i fesur amrywiadwy

---

<b>Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):</b>	48
---	----

---

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod teils to lapiad sengl i fesur amrywiadwy ar gyfer gwaith toi newydd a/neu ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Beth yw adeiladu cynaliadwy mewn toi?
- Beth yw rhychwant to?
- Beth yw ategwaith?
- Pam mae angen masgiau wyneb wrth dorri teils concriid?

## Deiliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

##### 1.1 Nodweddion yr adnoddau

**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

##### 1.2 Defnyddio adnoddau

**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

##### 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

##### 1.4 Peryglon

**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

#### Meini Prawf

##### 2.1 Dulliau gweithio

**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

##### 2.2 Offer a chyfarpar

**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deiliant 1

**1.1** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer teilsio lapiad sengl, gan gynnwys y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn gweithgynhyrchwyr, profion ansawdd, cyfyngiadau lleiniau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer teilsio lapiad sengl i; ardaloedd cyffredinol, bondoeau, ategweithiau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, cribau, arisiau, cafnau a gwaith plwm cysylltiedig. Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau riportio ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio a diogelwch.



**1.3** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gweithdrefnau, y rhesymeg a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer deunyddiau, cydrannau a chyfarpar teilsio lapiad sengl mewn perthynas â mathau, niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol, gan gynnwys:

- is-haenau
- deunyddiau cynnal y bondo
- teils lapiad sengl
- gosodiadau
- ffitiadau
- teils crib ac arisiau
- estyll strided
- systemau gosod sych
- systemau awyru
- cymysgedd mortar ac ychwanegion ar gyfer gwaith toi.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gallu adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â theilsio lapiad sengl, cyfrifoldebau gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio yn rhywle uchel, gydag offer a chyfarpar a deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau a drwy godi a chario â llaw a chodi mecanyddol a gweithdrefnau ar gyfer riportio peryglon.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb, a riportio problemau yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar

- y dulliau gweithio sy'n cael eu dilyn yn unol â'r manylebau gofynnol
- gwybod am weithdrefnau i riportio problemau

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen ar gyfer teilsio lapiad sengl. Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn deall diffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

- offer a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer teilsio lapiad sengl
- diffygion, a gofynion cynnal a chadw ar gyfer teilsio lapiad sengl

## Deiliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol

#### Meini Prawf

3.1 Dangos sgiliau gwaith i fesur,

3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod teils to lapiad sengl ar fesuriad amrywiol a ffitiadau, gosodiadau a chhydrannau cysylltiedig yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir

**Ystod:** bondoeau, ymylon, arisiau, cribau, cafneu, ategweithiau, agoriadau, treiddiadau, manau cyffredinol

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

3.1 Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol, gan fesur a thorri ishaenu, estyll strised a theils â llaw.

gofynion defnyddio cyfarpar diogelu personol yn briodol ar gyfer teilsio lapiad sengl

- het galed, fest lachar, esgidiau diogelwch, menig gwaith, masg wyneb FFP3, cyfarpar diogelu'r llygaid

3.2 Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer teilsio lapiad sengl yn ddiogel, gan gynnwys ysgolion a byrddau cropian. Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Offer a chyfarpar ar gyfer teilsio lapiad sengl

- morthwylion, llif llaw, cyllell drimio, pren mesur, tâp mesur, offer pŵer a chyfarpar ategol

Bydd dysgwyr yn gallu mesur y to, torri, gosod is-haen, cyfrifo datwm a thrwch teils drwy fesur hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Bydd dysgwyr yn gallu gosod teils a chhydrannau/ffitiadau lapiad sengl ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau i fannau cyffredinol, bondo, pentanau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb (gan gynnwys haen waelodol), cribau, arisiau a chafneu.

Gwaith i gynnwys deunyddiau newydd a/neu a adferwyd ar gyfer toeau gyda'r canlynol:

- manau cyffredinol, bondoeau, ategweithiau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, cribau, arisiau a chafneu

## Uned 238: Gosod gorchuddion to teils plaen

---

Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):	62
-------------------------------------	----

---

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod gorchuddion to plaen ar gyfer gwaith toi newydd a/neu ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Ble fyddai to oer yn cael ei inswleiddio?
- Pam mae teils plaen wedi'u cambro ar eu hyd?
- Pa nodwedd a ddefnyddir i hongian teilsen blaen ar astell sribed?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

##### 1.1 Nodweddion yr adnoddau

**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

##### 1.2 Defnyddio adnoddau

**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

##### 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

##### 1.4 Peryglon

**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

#### Meini Prawf

##### 2.1 Dulliau gweithio

**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

##### 2.2 Offer a chyfarpar

**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

##### Deilliant 1

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod y nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer teilsio plaen, gan gynnwys y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn gweithgynhyrchwyr, profion ansawdd, cyfyngiadau lleiniau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer teilsio plaen mewn.

- manau cyffredin
- bondoeau a chwrs uchaf
- ategweithiau
- agoriadau (goleuadau, ffenestri to)
- ymylon gosod sych a/neu wlyb
- cribau

- arisiau a chafnau

Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau riportio ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod y gweithdrefnau, y rhesymeg a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer deunyddiau, cydrannau a chyfarpar teilsio plaen mewn perthynas â mathau, niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol, gan gynnwys:

- teils plaen
- gosodiadau
- ffitiadau
- darnau gwrth-ddŵr
- teils crib ac arisiau
- estyll sribed
- systemau gosod sych
- systemau awyru
- cymysgedd mortar ac ychwanegion ar gyfer gwaith toi

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod y peryglon sy'n gysylltiedig â theilsio plaen, cyfrifoldebau gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio yn rhywle uchel, gydag offer a chyfarpar a deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau a drwy godi a chario â llaw a chodi mecanyddol a gweithdrefnau ar gyfer riportio peryglon.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar.

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen ar gyfer teilsio plaen. Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn deall diffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol

#### Meini Prawf

##### 3.1 Dangos sgiliau gwaith

**Ystod:** gofynion cyfarpar diogelu personol, mesur, gosod allan, marcio, torri, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen

##### 3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod teils plaen ar fesuriad amrywiol a ffitiadau, gosodiadau a chhydrannau cysylltiedig yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir

**Ystod:** deunyddiau newydd a/neu a adferwyd ar gyfer toeau gyda'r canlynol: manau cyffredinol, bondoeau a chwrs uchaf, ategweithiau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, ymylon, cribau, arisiau a chafnau, ac arwynebau fertigol

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol, gan fesur a thorri ishaenau, estyll strybed a theils â llaw.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio offer a chyfarpar ar gyfer teilsio plaen yn ddiogel, gan gynnwys ysgolion a byrddau cropian. Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur y to, torri, gosod is-haen, cyfrifo datwm a thrwch teils drwy fesur hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Bydd dysgwyr yn gallu gosod teils plaen a chhydrannau ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd i fannau cyffredinol, bondo a'r cwrs uchaf, pentanau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb (gan gynnwys haenau gwaelodol), cribau, arisiau a chafnau ac arwynebau fertigol.

## Uned 239: Gosod seliau hindreuliad sydd wedi cael eu ffurfio ymlaen llaw ar doeau

<b>Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):</b>	45
---	----

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod seliau plwm a/neu berchnogol wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar gyfer gorchuddion to lapiad sengl a dwbl gyda simneiau, ategwaith, pibellau gwastraff a/neu awyru, cyffyrdd, cafnau ac agoriadau ar gyfer gwaith newydd a/neu waith ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pa ddau ddull sy'n cael eu defnyddio i ffurfio seliau plwm?
- Pam mae plwm yn cael ei ddefnyddio ar gyfer seliau to?
- Beth yw pwrpas darn plwm gwrth-ddŵr?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

##### 1.1 Nodweddion yr adnoddau

**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

##### 1.2 Defnyddio adnoddau

**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

##### 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

##### 1.4 Peryglon

**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

#### Meini Prawf

##### 2.1 Dulliau gweithio

**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

##### 2.2 Offer a chyfarpar

**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 1

**1.1** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer gosod seliau hindreuliad wedi'u ffurfio ymlaen llaw, gan gynnwys y deunyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn gweithgynhyrchwyr, profion ansawdd, cyfyngiadau lleiniau, diffygion cyffredin, a dulliau trwsio.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r adnoddau sydd eu hangen i osod seliau hindreuliad sydd wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar doeau, ategweithiau, agoriadau (goleuadau to, ffenestri dormer, simneiau), arisiau a chafnau a gwybod y gweithdrefnau riportio ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio.



**1.3** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gweithdrefnau, y rhesymeg a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer deunyddiau seliau hindreuliad sydd wedi'u ffurfio ymlaen llaw, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â mathau, niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol, gan gynnwys: darnau gwrth-ddŵr, cafnau, seliau a chribau.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y peryglon sy'n gysylltiedig â gosod plwm sydd wedi'i ffurfio ymlaen llaw a/neu seliau hindreuliad ar doeau. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw cyfrifoldebau'r gweithiwr o ran damweiniau posibl a pheryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle;

- gweithio yn rhywle uchel
- gydag offer a chyfarpar
- gyda deunyddiau a sylweddau
- gyda symud/storio deunyddiau
- drwy godi a chario a defnyddio cyfarpar codi mecanyddol

Bydd y dysgwr yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ar gyfer riportio peryglon.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod y dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pa offer a chyfarpar sydd eu hangen i osod seliau hindreuliad wedi'u ffurfio ymlaen llaw ar doeau. Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn gwybod am ddiffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

## Deiliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol

#### Meini Prawf

##### 3.1 Dangos sgiliau gwaith

**Ystod:** gofynion cyfarpar diogel personol, mesur, gosod allan, graddio, tyllu, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen

##### 3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod seliau plwm wedi'u ffurfio ymlaen llaw a/neu berchnogol i orchuddion to lapiad sengl a dwbl yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir mewn perthynas â'r canlynol: simneiau, ategwaith, pibellau gwastraff a/neu awyru, cyfrwyau cyffyrdd, cafnau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to)

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

##### Deiliant 3

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n ddiogel, gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogel personol angenrheidiol, gan fesur, gosod allan, marcio, graddio, tyllu, torri, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio a chynnal a chadw gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys;

- morthwylion
- cyllell drimio
- naddwyr plwm
- snipwyr tun
- offer pŵer a chyfarpar ategol

Bydd dysgwyr yn gallu gosod seliau plwm sydd wedi'u ffurfio ymlaen llaw a/neu berchnogol ar orchuddion to lapiad sengl a dwbl yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir mewn perthynas â'r canlynol;

- simneiau
- ategweithiau
- pibellau gwastraff a/neu awyru
- cyfrwyau cyffyrdd – gwaelod/diferu
- cafnau
- agoriadau (goleuadau, ffenestri to)

## Uned 240: Gosod llechi to naturiol maint rheolaidd yn unol â manylion safonol y to

Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):	83
----------------------------------	----

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a gosod gorchuddion to llechi naturiol maint rheolaidd ar estyll sribed a/neu fyrddau ar gyfer gwaith toi newydd a/neu ail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Pa gymysgedd mortar sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gwaith toi?
- Pa ddulliau sy'n cael eu defnyddio i osod llechi naturiol?
- Pa fath o fetel dylid ei ddefnyddio ar gyfer hoelen llechi?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

##### 1.1 Nodweddion yr adnoddau

**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

##### 1.2 Defnyddio adnoddau

**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

##### 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

##### 1.4 Peryglon

**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

#### Meini Prawf

##### 2.1 Dulliau gweithio

**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

##### 2.2 Offer a chyfarpar

**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 1

#### 1.1 Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer llechi to naturiol maint rheolaidd gan gynnwys:

- tarddiad
- proses gweithgynhyrchu
- profi ansawdd
- dulliau gosod
- cyfyngiadau o ran codiad to
- diffygion cyffredin
- dulliau trwsio

**1.2** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod llechi to naturiol maint rheolaidd i; ardaloedd cyffredinol, bondoeau a'r cwrs uchaf, ategweithiau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, cribau, arisiau, cafau a gwaith plwm cysylltiedig. Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau riportio ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio a diogelwch.

**1.3** Bydd dysgwyr yn gallu nodi'r gweithdrefnau, y rhesymeg a'r ffyrdd o ddefnyddio'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer gosod llechi to naturiol maint rheolaidd gan gynnwys:

- deunyddiau, cydrannau a chyfarpar mewn perthynas â mathau, niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol gan gynnwys:
  - llechi naturiol
  - ffitiadau
  - gosodiadau (hoelen neu fachyn)
  - darnau gwrth-ddŵr
  - teils crib ac arisiau
  - estyll stribed
  - systemau gosod sych
  - systemau awyru
  - cymysgedd mortar ac ychwanegion ar gyfer gwaith toi.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gallu adnabod peryglon sy'n gysylltiedig â gosod llechi to naturiol maint rheolaidd, cyfrifoldebau gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio yn rhywle uchel, gydag offer a chyfarpar a deunyddiau a sylweddau ac wrth symud/storio deunyddiau a drwy godi a chario â llaw a chodi mecanyddol a gweithdrefnau ar gyfer riportio peryglon.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn deall dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar.

**2.2** Bydd dysgwyr yn deall yr offer a'r cyfarpar sydd eu hangen i osod llechi to naturiol maint rheolaidd. Bydd dysgwyr yn deall sut mae defnyddio a storio offer a chyfarpar yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn deall diffygion offer a'r gofynion cynnal a chadw ar gyfer offer a chyfarpar, yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol

#### Meini Prawf

##### 3.1 Dangos sgiliau gwaith

**Ystod:** gofynion cyfarpar diogelu personol, mesur, gosod allan, graddio, tyllu, ffitio, cymysgu, lleoli, sicrhau a gorffen

##### 3.2 Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol i osod llechi to naturiol maint rheolaidd ar estyll stribed a/neu fyrddau a ffitiadau cysylltiedig, gosodiadau a chydrannau yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir, gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd ar gyfer toeau gyda'r canlynol; manau cyffredinol, bondoeau a chyrсияu uchaf, ategweithiau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, cribau, arisiau a chafnau

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu gweithio'n ddiogel gan ddefnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol, gan fesur, torri ishaenau â llaw, estyllu, gosod llechi to naturiol maint rheolaidd a theils crib.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio offer a chyfarpar i osod llechi to naturiol maint rheolaidd yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad.

Bydd dysgwyr yn gallu mesur y to, torri, gosod is-haen, cyfrifo datwm a thrwch teils drwy fesur hyd y ceibrennau ar wahanol bwyntiau er mwyn pennu nifer y cyrsiau yn unol â'r manylebau. Bydd dysgwyr yn gallu gosod llechi naturiol maint rheolaidd a chydrannau lapiad sengl ar do yn gywir ac yn ddiogel yn unol â'r fanyleb gan ddefnyddio deunyddiau newydd a/neu a adferwyd i fannau cyffredinol, bondo a'r crib uchaf, pentanau, agoriadau (goleuadau, ffenestri to), ymylon gosod sych a/neu wlyb, cribau, arisiau a chafnau.

## Uned 241: Tynnu ac adfer gorchuddion to

Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH):	50
-------------------------------------	----

### Beth yw cynnwys yr uned hon?

Mae'r uned hon yn ymwneud â dehongli gwybodaeth, mabwysiadu arferion gwaith diogel, iach ac amgylcheddol gyfrifol, dewis a defnyddio deunyddiau, cydrannau, offer a chyfarpar a thynnu ac adfer gorchuddion to i'w defnyddio yn y dyfodol, gwaredu deunyddiau anaddas a pharatoi arwynebau i'w hail-doi.

Ar ôl cwblhau'r uned hon, bydd dysgwyr yn:

- deall sut mae dewis adnoddau
- deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract
- gallu cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn ddiogel ac yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb

Gallai dysgwyr gael eu cyflwyno i'r uned hon drwy eu cymell i ofyn cwestiynau iddyn nhw eu hunain fel:

- Ar gyfer beth mae astell heddog yn cael ei defnyddio?
- Pam na fydd hen seliau plwm yn cael eu rhoi mewn biniau gwastraff cyffredinol?
- Beth sy'n gallu gwneud i deils to clai golli laminad?

## Deilliant dysgu

### 1. Deall y broses o ddewis adnoddau

#### Meini Prawf

##### 1.1 Nodweddion yr adnoddau

**Ystod:** nodweddion; ansawdd; defnydd; cynaliadwyedd; cyfyngiadau; diffygion; cywiro diffygion

##### 1.2 Defnyddio adnoddau

**Ystod:** defnyddio'r adnoddau; rhoi gwybod am broblemau

##### 1.3 Gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer dewis adnoddau

**Ystod:** gweithdrefnau'r sefydliad, rhesymu, defnyddio

##### 1.4 Peryglon

**Ystod:** peryglon o ran adnoddau; peryglon o ran dulliau gwaith; goresgyn peryglon

### 2. Deall sut mae gweithio yn unol â manyleb contract

#### Meini Prawf

##### 2.1 Dulliau gweithio

**Ystod:** cwblhau dulliau gweithio; rhoi gwybod am broblemau

##### 2.2 Offer a chyfarpar

**Ystod:** dulliau o gynnal a chadw offer a chyfarpar

## Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

### Deilliant 1

**1.1** Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw'r nodweddion sy'n gysylltiedig â'r adnoddau ar gyfer tynnu gorchuddion to a'u hadfer. Bydd dysgwyr yn gwybod beth yw diffygion a chyfyngiadau'r gwahanol adnoddau o ran adfer neu aildefnyddio. Bydd dysgwyr yn deall sut mae gwerthuso addasrwydd cefndiroedd a gwerthuso deunyddiau i'w haildefnyddio, eu hailgylchu neu eu gwaredu'n briodol gan ddilyn y gweithdrefnau cywir.

**1.2** Bydd dysgwyr yn gwybod pa adnoddau sydd eu hangen i dynnu ac adfer amrywiaeth o orchuddion to, gan gynnwys cyfarpar mynediad, offer llaw a phŵer a chyfarpar ategol. Bydd dysgwyr yn gwybod am weithdrefnau riportio ar gyfer problemau gyda'r adnoddau gan gynnwys deunyddiau diffygiol, prinder, storio a diogelwch.



**1.3** Bydd dysgwyr yn gwybod y gweithdrefnau, y rhesymeg a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer tynnu ac adfer gorchuddion to, gan gynnwys deunyddiau, cydrannau a chyfarpar teilsio plaen mewn perthynas â mathau, niferoedd, ansawdd a meintiau cydrannau safonol a/neu arbenigol.

**1.4** Bydd dysgwyr yn gwybod y peryglon sy'n gysylltiedig â thynnu ac adfer gorchuddion to, cyfrifoldebau gweithiwr am ddamweiniau posibl, peryglon i iechyd wrth weithio yn y gweithle, gweithio yn rhywle uchel, gydag offer a chyfarpar a deunyddiau a sylweddau ac wrth dynnu, symud/storio deunyddiau a drwy godi a chario â llaw a chodi mecanyddol a gweithdrefnau ar gyfer riportio peryglon.

## Deilliant 2

**2.1** Bydd dysgwyr yn gwybod y dulliau gweithio diogel er mwyn bodloni'r fanyleb yn unol â chyfarwyddiadau ysgrifenedig neu ar lafar wrth wneud y canlynol:

- gosod byrddau atal dros dro ar fondoeau
- tynnu gorchuddion to presennol
- clirio malurion o'r to a hoelion o'r ceibrennau a thrawstiau eraill
- adfer teils a llechi naturiol, llechi cerrig a seliau/cydrannau mae modd eu defnyddio eto
- asesu pa mor addas yw'r deunyddiau sydd i'w hadfer
- pennu meintiau llechi imperial a metrig
- stacio/storio'r deunyddiau sydd wedi cael eu hadfer i'w hailddefnyddio
- paratoi deunyddiau i'w hailddefnyddio, gan gynnwys tynnu hoelion, ail-dyllu ac ail-feintio

Bydd dysgwyr yn ymwybodol o'r gofynion penodol ar gyfer gwaith toi ar strwythurau sydd o ddiddordeb arbennig fel adeiladau hanesyddol, toeau treftadaeth ac adeiladu traddodiadol (cyn 1919). Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae adnabod pan fydd angen sgiliau a gwybodaeth arbenigol a sut mae riportio yn unol â hynny.

**2.2** Bydd dysgwyr yn gwybod sut mae gofalu am offer llaw, offer pŵer a chyfarpar ategol.

## Deilliant dysgu

### 3. Cydymffurfio â'r wybodaeth a roddwyd yn y contract er mwyn cyflawni'r gwaith yn effeithlon ac yn unol â'r fanyleb ofynnol

#### Meini Prawf

**3.1** Dangos sgiliau gweithio i ddefnyddio mynediad diogel i archwilio, tynnu, adfer, tynnu hoelion, ail-dyllu, ail-feintio, glanhau a threfnu

**3.2** Defnyddio a chynnal a chadw offer llaw, offer pŵer cludadwy a chyfarpar ategol i dynnu, adfer a/neu waredu deunyddiau hindreuliad a chydrannau ategol yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir, ynghyd ag o leiaf ddau o'r canlynol; llechi naturiol, teils plaen, teils un lapiad, llechi cerrig

#### Deilliannau darparu (dyfnder y cynnwys)

**3.1** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio'r holl gyfarpar diogelu personol angenrheidiol, defnyddio byrddau cropian, ysgolion ac ysgolion to i gynnal archwiliad o'r to yn ddiogel cyn tynnu/adfer deunyddiau'r to. Bydd dysgwyr yn gallu gweithio mewn ffordd ddiogel i dynnu, adfer, tynnu hoelion, ail-dyllu, ail-feintio, glanhau a threfnu gorchuddion to.

**3.2** Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio a chynnal a chadw gwahanol fathau o offer llaw, offer pŵer a chyfarpar cysylltiedig yn ddiogel. Bydd dysgwyr yn gallu dangos eu bod yn storio offer a chyfarpar yn ddiogel a chynnal a chadw'r offer a'r cyfarpar yn ddiogel yn unol â gweithdrefnau'r sefydliad, gan gynnwys:

- morthwylion a chŷn
- rhwygwyr llechi
- cyllell lechi
- cyllell grefft
- trosol
- llif banel/llif law
- tynnu malurion – brwsh, rhaw, bwcedi
- tynnu deunyddiau – bympar, teclyn codi, olwyn craen a rhaff.

Bydd y dysgwr yn gallu tynnu, adfer a/neu waredu deunyddiau hindreuliad a chydrannau ategol yn unol â'r cyfarwyddiadau gwaith a roddir. Bydd dysgwyr yn gallu tynnu, adfer a/neu waredu cribau a seliau/cydrannau, ac o leiaf ddau o'r canlynol;

- llechi naturiol
- teils plaen
- teils lapiad sengl
- llechi cerrig